

## Rhagymadrodd

Dros y ganrif ddiwethaf daethpwyd i sylweddoli'n raddol fod Robert Gwyn, yr awdur a'r cenhadwr Catholig o Benyberth, ymhlith awduron Cymraeg pwysicaf yr unfed ganrif ar bymtheg. O fod yn '[d]rychiolaeth o lenor' i W. J. Gruffydd (Gwyn 1970: ix), y mae ei enw bellach yn hysbys yng nghanon llenyddol y Cyfnod Modern Cynnar. Yr ydym yn ddyledus, gan mwyaf, i'r diweddar Geraint Bowen am ddod â Gwyn a'i waith i'r amlwg, gan iddo olygu dau o'i lyfrau, sef *Gwssananeth y Gwŷr Newydd* a'r *Drych Kristnogawl*, ac ysgrifennu nifer fawr o erthyglau'n dehongli'r llyfrau hyn a rhai o weithiau eraill Gwyn.<sup>1</sup> Dywedodd Bowen yn ei ragymadrodd i *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* ei fod yn bwriadu ysgrifennu bywgraffiad llawn Gwyn ynghyd â pharatoi golygiad manylach o *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* yn nes ymlaen (Gwyn 1970: ix), ond yn anffodus bu farw cyn iddo allu cyflawni hynny. Golyga hyn nad oes yr un bywgraffiad llawn ar gael o'r awdur, er bod y rhan fwyaf o fanylion hysbys ei fywyd i'w canfod yn erthyglau Bowen (Bowen 1996), Harries (Harries 1973) a Mathias (Mathias 1954).

Amcan y gwaith hwn yw darparu trawsysgrifiad o'r testun cyntaf o eiddo Gwyn sydd wedi goroesi, sef *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, a ysgrifennwyd tra roedd Gwyn yn astudio yng Ngholeg Douai yn yr Iseldiroedd. Bwriedir hefyd ddarparu bywgraffiad mor llawn â phosibl, gan drafod ar yr un pryd y themâu a geir yn y testun sydd hefyd yn hysbys yng ngwaith awduron Catholig eraill yn yr un cyfnod, a chyd-destunoli'r llyfr yng nghanon llenyddol Gwyn, gan drafod y cysylltiadau testunol rhwng ei weithiau gwreiddiol. Amcenir hefyd amlygu dyled Gwyn i awduron Catholig Saesneg ei oes, gan geisio dangos ei fod gymaint, os nad mwy, o dan eu dylanwad hwy ag yr oedd o dan ddylanwad awduron Cymraeg. Yn ogystal â hyn, bwriedir canfod a thrafod y ffynonellau a ddefnyddiwyd gan Gwyn wrth lunio'r gwaith.

Pan ddaeth Elisabeth I i'r orsedd yn 1558, aeth ati yn gyflym i newid crefydd swyddogol Cymru a Lloegr yn ôl i Brotestaniaeth o Gatholigiaeth swyddogol ei chwaer Mari. Ailsefydlodd Deddf Goruchafiaeth 1558 annibyniaeth Eglwys Loegr, ac ailorseddwyd y litwrgi Protestannaidd a'r Llyfr Gweddi Gyffredin gan Ddeddf Unffurfiaeth 1559. Bellach, yr unig ddewis i Gatholigion na adawai eu cydwybod iddynt fynychu gwasanaeth Protestannaidd oedd troi'n reciwsantiaid, sef pobl a wrthodai fynychu eglwys y plwyf (o'r Lladin *recusare*). Nid oedd y newidiadau hyn yn boblogaidd ym mhob rhan o'r deyrnas, ac arhosodd llawer o ardaloedd yn bleidiol i'r Eglwys Gatholig, gan gynnwys prifysgolion Rhydychen a Chaer-

---

<sup>1</sup> Gw. y llyfryddiaeth am restr gyflawn o erthyglau Bowen ar y pwnc.

gawnt (Duffy 2009: 200-2), a llefydd anghysbell fel Cymru a Swydd Gaerhirfryn (Trimble 1964: 20). Yn wir, cymaint oedd ffyddlondeb academyddion y prifysgolion i'r Hen Ffydd fel bod oddeutu cant ohonynt wedi dewis ffoi i'r Cyfandir yn hytrach na chydymffurfio, a William Allen, Thomas Stapleton a Richard Bristow yn eu mysg. Fel y gwelir yn nes ymlaen, daeth rhai ohonynt yn weithgar iawn yn yr ymgyrch i adennill Lloegr i Gatholigiaeth (Duffy 2009: 201). William Allen, efallai, yw'r pwysicaf ohonynt, gan iddo sefydlu'r Coleg Seisnig yn Douai yn 1568, y coleg offeiriadol Tridentaidd, sef yn deillio o Gyngor Trent, cyntaf yn Ewrop (Duffy 2009: 202), a sbardunodd gymaint o ymdrech lenyddol a chrefyddol. Pwrpas y Coleg yn Douai oedd hyfforddi offeiriaid ar gyfer y genhadaeth yng Nghymru a Lloegr, gan ddysgu iddynt bregethu yn effeithiol yn Saesneg, a dadlau achos Catholigiaeth gyda gweinidogion ac awduron Protestannaidd (Fathers 1882: 65-7). Nid ymddengys y gwnaed ymdrech i addysgu'r Cymry i bregethu yn Gymraeg, fodd bynnag. Bu gan y weledigaeth hon o waith offeiriaid Gwrthddiwygiadol gryn effaith ar fywyd a gyrfa lenyddol Robert Gwyn, fel y gwelir yn y man.

Y mae i *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* dair rhan, sef llythyr rhagarweiniol gan Gwyn, pymtheg pennod gan Gwyn yn trafod y grefydd Gatholig, a choloffon o eiddo'r copiwr, William Dafydd Llywelyn o Langynidr, Sir Frycheiniog. Y mae'r coloffon yn rhoi cynnwys y testun, a chynnwys testun *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd*, a geir yn rhan gyntaf y llawysgrif.<sup>2</sup> Addasodd Llywelyn y testun ar gyfer darllenwyr a gwrandawyr yn y De-Ddwyrain, gan newid sillafiadau a rhai ffurfiau, a'i adael yn destun heibrid o waith mwy nag un awdur. Ystyriwyd yr iaith a'r orgraff yng ngoleuni hyn felly, fel y gwnaeth Iwan Edgar yn achos *Llysieulyfr* William Salesbury (Edgar 1997: xlix). Trafodir rhan Llywelyn yng nghyfansoddiad y llyfr isod.

Fel y nodir ar ddiwedd llythyr rhagarweiniol Gwyn i'r testun, gorffennodd ysgrifennu copi gwreiddiol *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* ar Nos Galan 1574 yng Ngholeg Douai. Dywedodd na chafodd 'onyd un mis o seibiant' (Gw. llinell 5) i lunio'r testun i gyd, felly y mae'n debyg iddo ychwanegu'r llythyr rhagarweiniol ato ar ôl gorffen gweddill y llyfr. Y mae hanes y copi gwreiddiol o hynny ymlaen yn anhysbys; y mae'n bosibl naill ai iddo ei anfon at ei rieni ym Mhenyberth gyda'r grŵp cyntaf o genhadon a adawodd Douai am Loegr yn Rhagfyr 1574 (Marshall 2012: 175), neu iddo yntau fynd ag ef drosodd i Gymru pan ddechreuodd ei genhadaeth yno ddwy flynedd ar ôl hynny (Knox 1878: 24). Fodd

---

<sup>2</sup> Enw Llywelyn ar y llawysgrif gyfansawdd oedd *Lanter Gristnogawl*, i gyd-fynd â'r *Drych Kristnogawl* y byddai ei ddarllenwyr eisoes yn gyfarwydd ag ef (Gw. llinellau 9091-3). Y mae'n bosibl iddo gael ei ysgogi i roi'r fath enw ar y testun gan ddelw y Santes Gudula y cyfeirir ati yn y testun, a bortreadid gyda llusern yn ei llaw (6600).

bynag, o ystyried dymuniad William Allen, pennaeth Coleg Douai, i'w fyfyrwyr ohebu gyda'u perthnasau gartref, anodd yw credu y byddai Gwyn wedi oedi cymaint â hynny cyn anfon y testun, yn enwedig yng ngoleuni'r dystiolaeth ei fod eisoes wedi ysgrifennu atynt ddwywaith erbyn 1574 (36, 4345-6). Gellir bod yn gymharol sicr felly, mai yn hwyr yn 1574 neu yn gynnar yn 1575 y cylchredwyd y testun yng Nghymru am y tro cyntaf.

Ni wyddys sut yn union y cafodd William Dafydd Llywelyn afael ar gopi o'r testun, ond y mae'n debyg fod Gwyn naill ai wedi ei roi iddo i'w gopïo tra roedd yn cenhadu yn y De, neu fod copïau yn cael eu cylchredeg yno eisoes, a bod Llywelyn, felly, wedi mynd ati i gopïo copi cyfredol. Y mae'n bosibl mai marwolaeth Gwyn a'i sbardunodd i wneud y copi sydd wedi goroesi, ac efallai gopïau eraill, ond ni ellir bod yn sicr ai o fersiwn wreiddiol Gwyn y'u gwnaethpwyd, ynteu o gopi arall gan law anhysbys. Daeth â thestun *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* ynghyd â thestun un arall o weithiau Gwyn, sef *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd*, i greu llawysgrif gyfansawdd a alwodd yn *Lanter Gristnogawl*. Gorffennwyd y gwaith o gopïo'r llawysgrif ar y seithfed o Awst 1604, a dirgel yw ei hanes o hynny hyd 3 Mehefin 1744, pan nodir ei bod 'ex libris Gregorii Powell' (NLW 15542B: iv). Daethpwyd o hyd iddi gan W. Alun Mathias yn llyfrgell Abaty Belmont yn Swydd Henffordd yn 1954, ac fe'i symudwyd yn fuan wedi hynny i'r Llyfrgell Genedlaethol, lle y'i cedwir heddiw.

### *Bywyd a gyrfa Gwyn*

Ganed Gwyn tua'r flwyddyn 1545, i deulu bonheddig yn Sir Gaernarfon. Credai Geraint Bowen yn wreiddiol mai o deulu Bodwrda yr hanai (Gwyn 1970: xxiv-v), ond yn nes ymlaen daeth i'r casgliad gyda W. Gerallt Harries (Harries 1973: 425-38), mai mab i deulu Penberth ydoedd (Bowen 1996: 33-58). Mynychodd Gwyn ysgol ramadeg, Ysgol y Friars ym Mangor efallai (Gwyn 1996: 36), lle, yn unol â chyfraith y wladwriaeth, y byddai'n rhaid mynychu gwasanaethau Protestannaidd. Nid oes unrhyw awgrym yn ei waith fod Gwyn wedi gwrthod gwneud hyn, felly gallwn dybio iddo ef a'i deulu gydymffurfio. Er hynny, y mae gwaith diweddar gan Lucy Underwood yn sôn am dueddiad ymysg oedolion Catholig ifainc naill ai i wrthod mynychu gwasanaethau'r ysgol yn llwyr, neu gydymffurfio'n allanol yn unig (Underwood 2013: 514). Cyfeirid at Gatholigion a fynychai eglwys y plwyf fel *Pabyddion Eglwysig*, ac fe'u hystyrid yn sgismatigiaid yn hytrach na hereticiaid.<sup>3</sup> Y gair y mae Gwyn yn

---

<sup>3</sup> Trafodwyd y grŵp pwysig hwn gan Alexandra Walsham yn *Church Papists: Catholicism, Conformity and Confessional Polemic in Early Modern England*. (The Boydell Press, 1999), ac "Yielding to the Extremity of the Time: Conformity, Orthodoxy and the Post-Reformation Catholic Community." Yn *Conformity and*

ei ddefnyddio ar eu cyfer yw *darnwyr*. Y mae'n bosibl mai dyna oedd hanes Gwyn, ond bid a fo am hynny, nid oes tystiolaeth bendant ei fod wedi bod yn reciwsant ar hyd ei oes. Ymaelododd â Choleg Corff Crist yn Rhydychen, gan raddio yn Faglor yn y Celfyddydau yn 1568 (Registrum 1885: 211). Gellir bod yn weddol sicr iddo gydymffurfio (o leiaf yn allanol) tra bu yn Rhydychen, gan yr ysgrifennai awdurdodau Colegau'r Brifysgol llythyrau geirda yn tystio i ffyddlondeb eu graddedigion i'r Eglwys Anglicanaidd (Griffith 1991: 41). Dywed W. P. Griffith mai cydymffurfio a chadw yn dawel am faterion crefydd fu hanes y rhan helaethaf o fyfyrwyr Cymreig y cyfnod, boed yn Gatholigion neu'n Biwritaniaid (Griffith 1991: 54).

Bid a fo am hynny, fe'i derbyniwyd yn ôl i lawn gymundeb yr Eglwys Gatholig yn 1571 gan y Tad Robert Owen o Blas Du yn Sir Gaernarfon, un o fyfyrwyr cyntaf Douai (Bowen 1996: 37). Perswadiwyd ef gan Owen i'w ddilyn i Douai, ac ymaelododd Gwyn â'r Coleg yn yr un flwyddyn, sef 1571 (Knox 1878: 5). Nodwyd uchod i Allen annog ei fyfyrwyr i llythyru â'u rhieni a'u cymdogion gartref, er mwyn eu hatgyfnerthu yn y Ffydd neu eu hadennill yn ôl iddi. Yn wreiddiol, bwriedid y llythyrau hyn fel ymarfer ysgrifennu polemig, ond pan roddodd John Jewel, esgob Anglicanaidd Caersallog, bregeth yn herio'r Catholigion i brofi dilysrwydd ysgrifthurol a phatrystaidd eu credo, sylweddolwyd gwerth y llythyrau fel propaganda. Cyhoeddwyd rhyw gant o'r llythyrau hyn gan y Catholigion Seisnig alltud erbyn 1580 (Bowen 1970a: 121). Gwyddys fod Gwyn wedi cyfrannu at y llythyrau sawl gwaith, oherwydd dengys tystiolaeth destunol iddo ysgrifennu dau destun sydd heb oroesi, sef *Fod Eglwys Grist yn un Corff* (7262), a *Gwrthe'r Gwŷr Newydd* (4345). Fe'i sbardunwyd gan her Jewel yn benodol i ysgrifennu testun arall, sydd wedi goroesi, o'r enw *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, sy'n ymateb i'r her yn y termau a osodwyd. Ymaelododd â Phrifysgol Douai, a ragddyddiodd y Coleg a sefydlwyd gan Allen o ryw ddeng mlynedd, ond a oedd dan ddylanwad trwm yr academyddion a ffodd o Rydychen a Chaergrawnt, tra roedd yn hyfforddi i fynd yn offeiriad, rywbyrd cyn 1573, a graddiodd 23 Rhagfyr 1575, yr un flwyddyn ag yr ordeiniwyd ef yn offeiriad (Gwyn 1970: xxix-xxx).

Fel darpar-offeiriad byddai disgwyl i Gwyn ddarllen y Beibl a'i feistroli, a dod yn gyfarwydd â gwaith y Tadau Eglwysig a rhai o ddiwinyddion mawr yr Oesoedd Canol. Addefai Allen fod y Protestaniaid yn aml yn fwy cyfarwydd â'r Ysgrifthurau na'r Catholigion, ac felly aethpwyd ati i gywiro hyn. Fel rhan o gwrs y Coleg darllenai'r myfyrwyr yr Hen Destament ddeuddeng ngwaith, a'r Testament Newydd unwaith ar bymtheg (Fathers 1882: 65). Yn ogystal â Lladin, dysgid Groeg a Hebraeg i'r myfyrwyr, er mwyn eu

---

*Orthodoxy in the English Church, c.1560–1660*. Lake, Peter, a Michael Questier, goln.(The Boydell Press, 2000).

galluogi i ddefnyddio gwaith y Tadau Groegaid, megis Origen a Basil, a fersiynau o'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn yr ieithoedd gwreiddiol. Y mae'n debyg y byddai Gwyn eisoes wedi bod yn gyfarwydd â Groeg, os mynychodd Ysgol y Friars, am y dysgid Groeg i'r disgyblion yno (Clarke 1955: 27). Yn ogystal â'r ymdrochiad hwn yn yr Ysgrhythrau, disgwyliid iddynt ddarllen llyfrau megis *Professio fidei tridentinae* (1564), *Constitutiones Angliae Provinciales* William Lyndwood (c.1470–80), a *Historia Ecclesiastica Gentis Anglorum* Beda (Fathers 1882: 66). Yn anffodus, y mae'n anodd barnu pa lyfrau yn union y byddai'r darpar offeiriaid yn ymgynabod â hwy yn ystod eu hyfforddiant, oherwydd bu'n rhaid i aelodau'r Coleg ffoi i Loegr yn sgil y Chwyldro Ffrengig yn y ddeunawfed ganrif, ac o ganlyniad, collwyd llyfrau'r Coleg. Er i ferch-golegau Douai, sef Doway ac Ushaw, ymdrechu i ailadeiladu'r casgliad, nid oes sicrwydd ynghylch union gynnwys llyfrgell Douai. Ni ellir bod yn hollol sicr, felly, pa lyfrau a oedd wrth benelin Gwyn wrth lunio'i gorpws.

Er hynny, ceir yn llythyr Allen at Dr Vendeville, Athro'r gyfraith eglwysig ym Mhrifysgol Douai, restr o'r llyfrau a ddefnyddid wrth ddadlau achos yr Eglwys Gatholig yn erbyn y Protestaniaid. Crybwyllir gweithiau apologetig Awstin Sant, 'yn enwedig *De Utilitate Credendi* a rhai o'r llythyrau at y Donatyddion' (Fathers 1882: 66), llyfr Cyprian *De Unitate Ecclesiae*, a gweithiau Sierom, sef *Contra Vigilantium* a *Contra Jovinum* (Fathers 1882: 66). Gwyddys hefyd y disgwyliid i'r myfyrwyr ddefnyddio Catecism Canisius fel testun gosod (Fathers 1882: 65), a'u bod yn cael eu hyfforddi i weinyddu Sagrafen y Gyffes trwy ddefnyddio llawlyfrau achos (Walsham 2014: 107). Bu'n rhaid hefyd i bob myfyriwr ysgrifennu *Dictates*, sef llyfrau yn seiliedig ar y nodiadau a ysgrifennent yn y darlithoedd. Gwneid copiâu teg o'r nodiadau ar ôl y darlithoedd, o bosibl gan gyfeirio at gopi meistr, fel y byddai gan bob myfyriwr lyfrgell fach o ddysgeidiaeth Gatholig y gallai gyfeirio ati pan oedd ar y genhadaeth. Ceir rhestr o rai o'r *Dictates* hyn a gedwir yn llyfrgell Ushaw yn Sharratt (2003: 200–10). Mae'n debyg i Gwyn ysgrifennu pethau eraill y credodd y byddent yn ddefnyddiol iddo wrth genhadu yn ei *Dictates* hefyd, gan iddo ddweud ei fod wedi bod yn llygatdyst i ddadreibiad yn Valenciennes ar 29 Medi 1574, a'i fod wedi cymryd nodiadau (8445-8749).

Dychwelodd Gwyn i Gymru yn 1576 (Knox 1878: 24), ac aeth ar ei union i Llyn. Er bod daliadau crefyddol Llyn yn tueddu i fod yn geidwadol yn y cyfnod hwn, hynny yw bod y rhan fwyaf o'r bobl wedi aros yn bleidiol i'r Hen Ffydd, er iddynt gydymffurfio'n allanol, nid yw hynny'n gyfystyr â dweud bod llawer o'r trigolion yn reciwsantiaid (Williams 1996: 112). Yn wir, yr oedd Catholigion nad oeddent yn cuddio eu ffydd yn weddol brin yn Llyn nes i

Gwyn gyrraedd (Bowen 1954: 20), ond ar ôl iddo ddychwelyd gwelwn fod rhai o drigolion yr ardal yn dechrau peidio â mynychu'r gwasanaeth Anglicanaidd (Jones 1951: 16, 18). Cawn syniad o boblogrwydd Gwyn ymysg ei braidd yn sgil adroddiad *Diarium Secundum* y Coleg o ymgais Nicholas Robinson, esgob Bangor, i ddal Gwyn a'i garcharu, pan yrrwyd yr esgob a'i wŷr i ffwrdd gan lu o fenywod a oedd Gwyn wedi troi'n Gatholig a oedd yn awyddus i achub eu hofferiad (Knox 1878: 108).

Cyhuddwyd Thomas Owen, Plas Du, brawd y Tad Robert Owen o ddarparu llety i Gwyn tra roedd yn cenhadu (Jones 1936: 105), a'i gynorthwyo ar deithiau at Buwiaid Penrhyn Creuddyn. Cyhuddwyd Richard Vaughan Llwyndyrys yn yr un achos o gefnogi Gwyn a llythyru ag ef, er iddo fynnu nad ysgrifennodd at Gwyn ond pan oedd yn Brotestant (Jones 1936: 104). Gwelwn o'r achos hwn, y *Lleyn Recusancy Case* fel y cyfeirir ato, fod gan Gwyn gylch o gefnogwyr ymysg boneddigion yr ardal a roddai le iddo aros a'i ddefnyddio fel man offeren. Ni allwn fod yn hollol sicr o ddaliadau crefyddol teulu Gwyn ei hun yn y cyfnod hwn; ond gan fod un o'i frodyr hefyd wedi mynd yn offeiriad Catholig (Gruffydd 1972: 84), a chan fod ei frawd hŷn Gruffudd Wyn yn coleddu Catholigiaeth o 1599 ymlaen, os nad ynghynt (Harries 1973: 426), y mae'n bur debyg eu bod o leiaf yn 'babyddion eglwysig'.

Fodd bynnag, y mae'n debyg mai colli hyder oedd effaith yr helyntion hyn ar Gatholigion yr ardal, ac y mae'n bosibl mai dyna a barodd i Gwyn symud i esgobaeth Llanelwy, cadarnle Catholig arall (Mullet 1998: 28). Dichon iddo ymsefydlu rhywle yn ardal Ffynnon Gwenfrewi yn Nhreffynnon, gan fod y gysegrfan yno wedi dod yn bencadlys cenhadon Catholig yr ardal erbyn diwedd y 1570au (Walsham 2014: 188). Ceir cofnod iddo weinyddu'r offeren yn nhŷ Richard Lloyd yn Erbistog yn 1579 (Thomas 1971: 40), ac mewn tai a ffermydd anghysbell yn yr un ardal (Jones 1945: 116). Bu Richard Gwyn, a gawsai ei ferthyru'n nes ymlaen, yn bresennol yn yr offerennau hyn, felly, ac awgryma Geraint Bowen mai Robert Gwyn a'i troes yn Gatholig (Bowen 1996: 45). Yn 1578, awdurdodwyd Gwyn i fendithio amwisgoedd a chysegru allorau symudol gan y Pab Gregori XIII. Rhoddwyd yr un gallu i ddau arall ar yr un pryd, Saeson o'r enwau George Blackwell a ddaethai'n archoffeiriad yn nes ymlaen (Bossy 1975: 41), a Vivian Haddock (Rigg 1926: 439). Gan fod yr unig esgobion Catholig a oedd ar ôl yn Lloegr yn y carchar, yr oedd Gwyn bellach yn bennaeth ar yr offeiriaid seciwlar Cymreig (Gruffydd 1968: 11), sef yr offeiriaid nad oeddent yn aelodau o unrhyw urdd crefyddol, ac yn ffigwr pwysig yn y genhadaeth ehangach.

Aeth Gwyn i'r cyfandir a theithio i Rufain erbyn 1580. Tra roedd yn aros yno, ysgrifennodd *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd*, yn yr hwn destun y mae'n dadlau gyda'i deulu a'i gydwladwyr ynghylch ymgadw rhag eglwysi plwyf Protestannaidd. Yr oedd Robert Persons,

yr awdur Seisnig o Iesuwr yn Rhufain ar yr un pryd, yn ysgrifennu *A briefe discourse contayning certayne reasons why Catholiques refuse to goe to Church*, ac mae lle i greu ar sail tebygrwydd cynnwys y ddau lyfr, fod y ddau wedi ymgynghori â'i gilydd ynglŷn â'r gwaith o ysgrifennu'r ddau destun.<sup>4</sup> Aeth Gwyn i Loegr yn 1580, ac mae'n debyg iddo fynd yn syth i Lundain. Cynhaliwyd synod yn Southwark y flwyddyn honno, o dan arweiniad Persons ac Edmund Campion, i drafod yr angen i Gatholigion beidio â mynychu'r eglwysi plwyf. Yn ogystal â hwythau a'u cyd-Iesuwr, yr oedd rhai o'r offeiriaid seciwlar mwyaf blaengar yn bresennol yn y synod (Trimble 1964: 103). Yr oedd Cymry yn eu plith (Williams 1997b: 268), a chredaf ei bod yn deg inni gasglu bod Gwyn wedi cymryd rhan yn y synod, yn enwedig o ystyried ei fod ef ei hun newydd ysgrifennu llyfr yn trafod y pwnc. Penderfynwyd canolbwyntio ar genhadu mewn tair ardal, sef Swydd Gaerhirfryn a Gogledd Lloegr, East Anglia, a Chymru (Haigh 1987: 196). Ym mis Hydref, ailgyfarfu Campion, Persons a Gwyn yn Uxbridge yn nhŷ William Griffith, Cymro Catholig o Lancarfan ym Morgannwg, er mwyn trefnu sefydlu gweisg dirgel i argraffu llyfrau Catholig (Hicks 1942: xxxi). Sefydlwyd y wasg ddirgel gyntaf yn Greenstreet House, East Ham yn 1580 (Gwyn 1970: xxxiv), ac aed ati yn nes ymlaen i sefydlu rhagor. Gwelir bod Gwyn nid yn unig mewn cysylltiad â Chatholigion Cymreig, ond â phobl, boed yn Gymry neu'n Saeson, o'r tu hwnt i Glawdd Offa. Bu Allen yn bennaeth ar yr holl genhadaeth Seisnig yn ei chyfanrwydd, ac yr oedd Persons a Campion ymysg yr Iesuwr Seisnig mwyaf blaengar, felly gwelir bod Gwyn trwy ei gysylltiad â hwy yn ffigwr pwysig yn y genhadaeth ehangach, a'i fod yn meddu ar rwydwaith o gysylltiadau llenyddol a chrefyddol a oedd yn ymestyn dros Gymru a Lloegr.

Yr oedd Gwyn yn ôl yng Nghymru erbyn 1583, y tro hwn yn y De, ac y mae'n debyg iddo gael ei gyflwyno i faes cenhadaeth De Cymru gan Griffith (Bowen 1978: 83). Cyfansoddodd *Y Drych Kristnogawl*, testun hir yn trafod y Pedwar Peth Diwethaf, tra roedd yn aros yn Werngochen ger Y Fenni rhwng 1583 a 1584 (Bowen 1978: 83). Bu Siôn Dafydd Rhys, y dyneiddiwr ystwyth ei gydwybod, yn byw yn Aberhonddu'r adeg honno, ac y mae rhai ysgolheigion, megis Paul Bryant-Quinn, o'r farn ei fod wedi helpu Gwyn gyda'r gwaith o gyfansoddi'r testun, ar sail safon yr iaith, a'r cyfeiriadau at y beirdd clasurol a geir ynddo. Dyma'r unig un o weithiau Gwyn lle ceir rhywbeth mor ystrydebol o ddyneiddiol â chyfeiriadau at feirdd Lladin, neu'n wir at destunau nad ydynt yn ymwneud â chrefydd. Argraffwyd rhan gyntaf *Y Drych* ar wasg yn ogof Rhiwledyn, ger Llandudno, gan dîm a oedd

---

<sup>4</sup> Am drafodaeth lawnach ar y berthynas rhwng y ddau destun gweler January-McCann, James. "Robert Gwyn and Robert Persons: Welsh and English Perspectives on Attendance at Anglican Service." *Recusant History* 32 (October 2014): 159–72.

yn cynnwys yr argraffydd, Robert Thackwell, a'r Tad William Davies o Groes yn Eirias. Y mae'n debyg mai Gwyn a ddygodd Thackwell i Gymru yn sgil y gynhadledd yn Uxbridge (yr oedd yn adnabyddus i *Campion a Persons*), ac a berswadiodd Robert Pugh o Benrhyn Creuddyn i roi cartref i'r wasg yn Rhiwledyn (Gruffydd 1958: 11), ond nid oes gennym dystiolaeth fod a wnelo Gwyn ei hun â gwaith y wasg, er, ys dywed R. Geraint Gruffydd, mai anodd yw credu nad oedd ef yn ymwneud â hi mewn rhyw fodd (Gruffydd 1972: 8).

Sefydlwyd ail wasg yn nhŷ Siôn Dafydd Rhys yn Aberhonddu, ac y mae'n bosibl mai'r bwriad oedd argraffu gweddill *Y Drych* yno, ond daethpwyd o hyd iddi cyn y gellid cwblhau'r gwaith (Gruffydd 1972: 11-19). Bu brawd Gwyn, yr offeiriad Dafydd Llwyd yn helpu gyda'r gwaith argraffu yn Aberhonddu (Bowen 1978: 84), ac yn ôl tystiolaeth Thackwell, a oedd wedi bod yn rhan o'r tîm hefyd, yr oedd y cwmni'n cynnwys dau offeiriad arall, un ohonynt yn dwyn yr enw 'Robert Jones', sef un o ffugenwau Gwyn (Gruffydd 1972: 8).

Dihangodd Gwyn, a pharhau i fyw yn Werngochen tan o leiaf 1590, pan gyfansoddodd *Coelio'r Saint*, testun arall a ddadleua o blaid dilysrwydd credoau Catholig yn erbyn y Protestaniaid (Bowen 1978: 304). Y mae'n debyg mai yn ystod y cyfnod hwn y cyfaddasodd *Summa Casuum Conscientiae* gan Francisco Toledo,<sup>5</sup> ac *A Manuall of Resolution* gan Persons i'r Gymraeg, ac y daeth i gysylltiad â'r copiwyd Llywelyn Siôn a William Dafydd Llywelyn a gopiodd rai o'i destunau. Llywelyn Siôn sy'n gyfrifol am y copi cyflawn o'r *Drych Kristnogawl* sy'n goroesi, a chopiodd destunau rhyddiaith eraill fel y *Gesta Romanorum* a *Saith Doethion Rhufain* (Phillips 1953: 602). Mae'n debyg i Gwyn groesi'r ffin ryw dipyn hefyd, gan y ceir cofnod i 'Robert Jones' aros 'gyda Mr Seaborne yn Swydd Henffordd' (Thomas 1971: 39) yn ystod y cyfnod hwn. Gellir amgyffred llwyddiant cenhadaeth Gwyn yn y De-ddwyrain o ystyried y ffaith i'r Cyfrin Gyngor rybuddio Cyngor y Gororau i weithredu yn fwy pendant yn erbyn Catholigion yn yr ardal honno, gan iddynt gredu bod yr Hen Ffydd yn ffynnu yno (Jones 1989: 84). Bu cyrch ar Werngochen rhyw dro ar ôl hyn, mwy na thebyg yn sgil y rhybudd, a bu'n rhaid i Gwyn ffoi yn ôl i Sir Gaernarfon erbyn 1592 (Bowen 1978: 85). Gwyddys iddo gael rhywfaint o lwyddiant yno hefyd, gan y ceir cofnod iddo droi Thomas Evans o ardal Caernarfon yn Gatholig y flwyddyn honno (Thomas 1971: 41). Noda Bowen fod Gwyn wedi bod yn bresennol ym merthyrddod y Tad William Davies ym Miwmares yn 1593 (Bowen 1997: 230), ond nid yw'n rhoi cyfeiriad at ddogfen sy'n cadarnhau hyn. Ni lwyddwyd hyd yn hyn i ddarganfod unrhyw dystiolaeth fod

---

<sup>5</sup> Yn ôl Geraint Bowen, y mae'n debyg mai rhwng 1581–5 y cyfaddaswyd y testun (Bowen 1968: 23).



Gwyn wedi gweld marwolaeth Davies, felly erys peth ansicrwydd ynglŷn â hyn. Lluniwyd ach teulu Gwyn yn 1594, ac ysgrifennwyd *mort* uwchben ei enw (Harries 1973: 425), ond mae llythyr a ysgrifennwyd yn 1597, fel rhan o Ddadl yr Archoffeiriad, sef ymryson ymysg yr offeiriaid Catholig yn Lloegr ynghylch arweinyddiaeth yr Archoffeiriad George Blackwell, yn dweud bod Gwyn wedi gadael Llundain yn 1597, ar ôl bod yng nghwmni'r Tad Robert Fisher, un a safai'n gadarn yn erbyn arweinyddiaeth Blackwell (Law 1896: 2). Erys union ddyddiad ei farwolaeth yn ansicr felly, ond cyfeiria William Dafydd Llywelyn ato yn yr amser gorffennol yn ei goloffon i lawysgrif *Y Lanter Gristnogawl* a gopiwyd yn 1604 (Gwyn 1970: xi).

### *Canon llenyddol Gwyn*

Priodolir saith o lyfrau i Gwyn ar wahân i *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, sef pum testun gwreiddiol, yn cynnwys dau sydd wedi mynd ar goll, a dau gyfieithiad, un o'r Lladin ac un o'r Saesneg. *Fod Eglwys Grist yn Un Corff* (1572–4), *Gwrthe'r Gwŷr Newydd* (1572–4), yw'r gweithiau coll, *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* (1574), *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* (1580), *Y Drych Kristnogawl* (1583–4) a *Coelio'r Saint* (1590) yw'r testunau gwreiddiol eraill, a'r fersiwn Cymraeg o *Summa Casuum Conscientiae* (*Drych Cydwybod?* (Bowen 1968: 29)) (1581-5) a *Llyfr y Resolution* (dim dyddiad) yw'r cyfieithiadau. Y maent oll wedi eu hysgrifennu at anghenion y genhadaeth Gymreig, ac felly yn ddarnau o bropaganda Catholig. O gymharu gweithiau Gwyn â chorpws enfawr ei gyfoeswr Protestannaidd William Salesbury, gwelir bod Gwyn yn canolbwyntio ar un *genre* yn unig, tra bod Salesbury yn amrywio o weithiau crefyddol i gasgliadau o ddjarhebion Cymraeg a llyfr meddyginiaethol (Mathias 1970: 27: 53). Yr oedd Salesbury, wrth gwrs, yn ddyneiddiwr a oedd yn ymddiddori yng ngramadeg ac orgraff yr iaith, yn gwbl groes i agwedd Gwyn ac i arddull awduron Ysgol Douai, a ddisgrifiwyd gan Bowen fel 'gwallgof o genhadol a digyfaddawd' (Bowen 1970b: 121). Yr oedd yr arddull ddiaddurn hon, nid yn unig yn groes i arddull y dyneiddwyr Protestannaidd, ond yn groes hefyd i'r safonau ieithyddol a osodwyd gan Gruffydd Robert, ac a ddilynwyd gan Morys Clynnog a Rhosier Smyth, yr alltudion Catholig. Yn wir, yr unig dro y gwelwn Gwyn yn pryderu am ddyfodol y Gymraeg yw yn ei ragymadrodd i'r *Drych Kristnogawl*, sef yr unig waith a gyfansoddodd (o bosibl) gyda help Siôn Dafydd Rhys (Gwyn 1996: 5-6).

Ni wyddys llawer am weithiau coll Gwyn, sef *Gwrthe'r Gwŷr Newydd* a *Fod Eglwys Grist yn un Corff*, ond cyfeirir atynt (7262, 4345) fel llythyron at ei berthnasau gartref ar yr

un ffurf â *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*. Y mae'n debyg bod *Gwrthe'r Gwŷr Newydd* yn disgrifio gwyrthiau ffug a briodolwyd i Lwther a Chalfin, mewn ymgais i brofi bod Protestaniaeth yn grefydd ffals na allai ei deiliaid gyflawni gwyrthiau fel aelodau'r wir Eglwys. Ceir enghraifft o'r math hwn o ddadl yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* hefyd (4343-60), lle rhydd Gwyn ddau enghraifft o wyrthiau ffug gan Lwther a Chalfin. Oherwydd iddo gyfeirio at y llythyron hyn fel pethau a oedd eisoes wedi cael eu hanfon at ei deulu, gallwn fod yn hollol sicr iddynt gael eu hysgrifennu cyn 1574. Ymddengys fod yr ail lythyr coll, *Fod Eglwys Grist yn un Corff*, yn trafod thema undod yr Eglwys, a oedd yn thema bwysig yng ngwaith awduron Catholig y cyfnod ym mhob iaith (McGrath 1993: 183). Fel y gwelwn, yr oedd yn thema y byddai Gwyn ei hun yn dychwelyd ati droeon.

Y mae i *Na all fod vn Ffydd onyd yr Hen Ffydd* le pwysig iawn yng nghanon Gwyn, oherwydd ceir ynddo ddeunydd y byddai Gwyn yn ei ailgylchu ac yn ychwanegu ato trwy gydol ei yrfa lenyddol a chenhadol. Cyfeiria Gwyn sawl gwaith at yr angen i fod yn gryno, er mwyn sicrhau y gallai gynnwys popeth a oedd yn angenrheidiol yn y testun, ac ambell dro dywed ei fod yn bwriadu dychwelyd at y deunydd hwn yn y dyfodol. Dadleuir yma, felly, fod Gwyn wedi defnyddio'r testun hwn fel 'mamdestun' i'w weithiau gwreiddiol eraill, gan ddychwelyd at rannau ohono ac ychwanegu atynt droeon fel hwb i'w genhadaeth.

### *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd*

Y mae *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* yn gyfraniad at y drafodaeth fyw iawn ymysg clerigwyr Catholig ynghylch a oedd yn dderbyniol iddynt fynychu'r eglwysi plwyf. Yr oedd Deddf Unffurfiaeth 1559 yn gorfodi'r bobl i fynychu'r gwasanaeth newydd, gan osod dirwy ar y rhai a wrthodai fynychu. Golygai hyn fod y gymuned Gatholig wedi'i dal rhwng ei ffyddlondeb i orchmynion y frenhines, a'i dyletswydd grefyddol. Penderfyniad Cyngor Trent ar y pwnc oedd y dylid ymgadw rhag gwasanaethau'r Protestaniaid (Marshall 2012: 171), ac felly pan ddechreuodd yr offeiriaid colegol, sef y rhai a gafodd eu hyfforddi yn y colegau offeiriadol ar y cyfandir, ddychwelyd i Gymru a Lloegr o 1574 ymlaen, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt o'r farn na ddylid mynd ar gyfyl yr eglwysi Protestannaidd. Yr oedd yr Iesuwr hefyd yn gadarn o blaid ymwrthod. Ond yr oedd rhai ymysg yr offeiriaid seciwlar a gredai y gellid mynychu'r gwasanaeth (Highley 2008: 8-9). Cyfeiriwyd atynt yn Saesneg fel yr *Apellants* oherwydd iddynt apelio at y Pab yn erbyn yr Iesuwr. Ysgrifennai'r ddwy ochr yn erbyn ei gilydd, yn ogystal ag ysgrifennu yn erbyn y Protestaniaid, felly cawn yma gyfraniad Cymraeg at y ddadl ehangach hon. Y mae hi hefyd yn ddadl sydd i'w chael yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, er nad eir i lawer o fanylder yn y testun hwnnw (9003-136).

Dengys y darn hwn fod barn Gwyn yn erbyn mynychu'r eglwysi plwyf wedi aros yn gyson ers ei ddyddiau yn Douai, ac y gallai ymhelaethu ar yr hyn a ddywedodd yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* i greu llyfr cyflawn yn trafod y pwnc hwn er mwyn i'w gydwladwyr gael deall barn yr Eglwys Gatholig ar y mater.

Y mae'r llyfr ei hun wedi ei strwythuro yn ddwy ran; y mae'r rhan gyntaf, sy'n cynnwys y chwe phennod gyntaf, yn trafod yr angen i beidio â mynychu eglwys y plwyf. Esbonia'r bennod gyntaf mai pechod mawr yw mynd i'r eglwys, ac y bydd pobl yn peryglu eu heneidiau wrth fynd. Y mae'r ail yn dangos na ddylid hyd yn oed gymdeithasu â hereticiaid fel aelodau Eglwys Loegr, heb sôn am fynychu eu gwasanaeth. Y mae'r drydedd bennod yn esbonio'r ddwy gyntaf gan ddweud nad oes na gras nac iachawdwriaeth y tu allan i gytundeb yr Eglwys Gatholig ac, felly, y bydd pobl yn colli pob rhinwedd grefyddol dda wrth fynychu eglwys arall, ac, unwaith eto, yn peryglu eu heneidiau. Dadleua Gwyn yn y bedwaredd bennod ei bod yn well dioddef merthyrdod na gwadu'r Ffydd. Erbyn 1580 yr oedd gan y Catholigion a'r Protestaniaid fel ei gilydd ddigon o ferthyron, ac yr oedd apelio at eu haberth eisoes wedi dod yn rhan bwysig o'r genhadaeth Gatholig, a phropaganda poblogaidd Protestaniaeth (Cameron 2012: 367). Â'r bumed bennod i'r afael â dadl yr *Apellants*, ac arfer cynharach llawer o Gatholigion, sef mynd i'r gwasanaeth ond peidio â chymryd rhan ynddo mewn unrhyw fodd. Y mae'n debyg, er enghraifft, fod llyfr Morys Clynnog, yr *Athravaeth Gristnogawl*, wedi ei fwriadu i'w ddarllen wrth wrando ar y bregeth yn yr eglwys leol, fel ffordd o osgoi clywed heresi (Bossy 1975: 122). Dadleua'r chweched bennod fod gwrandu ar y gwasanaeth newydd yn bechod, oherwydd bod rhannau pwysig o'r grefydd Gatholig- y Gwir Bresenoldeb, y Saint, a gweddio dros y meirw, wedi eu gadael allan o'r *Llyfr Gweddi Gyffredin*. Cynhwysa chwe phennod olaf *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* nifer o *exempla* i ddangos na ddylid aros tan awr angau i gyffesu pechodau a byw bywyd da. Bu pryderu am farw heb edifarhau'n gonsyrn a oedd yn gyffredin iawn ymysg Catholigion, cyn ac yn ystod y Diwygiad, oherwydd grym dysgeidiaeth yr Eglwys am y Purdan a'r angen i gyffesu a derbyn y Sagrafen Fendigaid cyn marw (Duffy 2005: 301–9). Cyhoeddwyd llawer o lyfrau a llyfrau torluniau pren yn yr Oesoedd Canol Diweddar i esbonio i'r lleygwyr sut i baratoi am angau, ac i bwysleisio pwysigrwydd marwolaeth dda (Duffy 2005: 316). Gan fod y ddysgeidiaeth hon yn chwarae rhan mor bwysig yng nghredoau'r Eglwys Gatholig, bu'r Diwygwyr yn neilltuol awyddus i'w gwrth-ddweud a'i dileu o feddyliau'r bobl gyffredin; thema pregethau cyntaf Latimer, er enghraifft, oedd ymosod ar gred y Purdan, *cultus* y meirw, a'r holl fframwaith defosiynol a ddatblygodd o'i gwmpas (Duffy 2005: 376). Yn wyneb ymosodiadau felly o'r pulpud, a diffyg cyfleoedd i drafod athrawiaeth yr Eglwys

Gatholig ar y Pedwar Peth Diwethaf, sef Marwolaeth, Dydd y Farn, Nef ac Uffern, gwelir yma nad dadlau'n erbyn y dehongliad Protestannaidd ohonynt yn unig yr oedd Gwyn. Yr oedd hefyd yn darparu math o lawlyfr i'w ddarllenwyr y gallent ei ddefnyddio yn absenoldeb offeiriad i'w hyfforddi yn athrawiaeth yr Eglwys Gatholig ar y Pedwar Peth Diwethaf, ac yn y ffordd i sicrhau eu bod yn cael marwolaeth dda i'r graddau mwyaf posibl. Y mae'r ddysgeidiaeth hon wedi bod yn bwysig mewn Catholigiaeth trwy gydol ei hanes, ond oherwydd prinder offeiriad, a'r posibiliad cryf na fyddai un ar gael i wrando cyffes gwely angau, y mae'n rhaid bod gan y darn hwn o'r llyfr hyd yn oed fwy o arwyddocâd i Gatholigion oes Gwyn. Gwelir pwysigwrydd dysgeidiaeth y Pedwar Peth Diwethaf i'r Gwrthddiwygiad yn y ffaith bod Gwyn wedi mynd ati ryw dair blynedd yn ddiweddarach i ymhelaethu arnynt yn *Y Drych Kristnogawl*.

Lluniwyd y testun yn Rhufain yn 1580, a chan fod Gwyn wedi gadael y ddinas honno a mynd i Loegr yn nes ymlaen yn yr un flwyddyn, mae'n debyg iddo ddod â'i lawysgrif wreiddiol gydag ef i Loegr, yn y gobaith o'i hanfon ymlaen at ei deulu pan gâi'r cyfle. Nid yw'r llawysgrif wreiddiol wedi goroesi, ac ni cheir mo'r testun bellach ond yn y llawysgrif gyfansawdd gyda *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*. William Dafydd Llywelyn oedd y copiwr unwaith eto, felly mae'n debyg fod y testun wedi bod yn cylchredeg yn y Ddeddwyrain erbyn iddo ei gopïo yn 1604.

### *Y Drych Kristnogawl*

Disgrifiwyd *Y Drych Kristnogawl* fel 'gwaith pwysicaf reciwsantiaeth oes Elisabeth' (Gwyn 1996: xi). Dyma un o'r llyfrau bugeiliol Catholig cymharol brin a ysgrifennwyd yn y cyfnod hwn; bu llyfrau apologetig a pholemig yn llawer mwy cyffredin, o ystyried dadlau crefyddol parhaus y ganrif. Yn yr un modd â mater mynychu'r eglwysi yr oedd Gwyn wedi trafod y Pedwar Peth Diwethaf yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, y tro hwn yn ei ragymadrodd i'r testun, a dywedodd yno y byddai'n rhaid iddo dorri ei ddadl yn fyr er mwyn achub lle yn y llythyr ar gyfer pethau eraill, ond yr hoffai barhau gyda'r drafodaeth mewn man arall yn nes ymlaen: 'ny ddown ni y ben a dangos y chwi byth gymint ag ellid y ddywedyd am y pedwar yma' (463–4). Dyma ef yn cael y cyfle hwnnw ryw ddegawd yn ddiweddarach, gan ymhelaethu ar yr ychydig sylwadau yr oedd ganddo le iddynt yn llyfr cyflawn. Soniwyd o'r blaen am brinder offeiriad Catholig yng Nghymru yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, sef prinder a achoswyd yn rhannol gan dueddiad y rhan fwyaf o'r offeiriad colegol Cymreig i weinidogaethu yn Lloegr neu ar y cyfandir (Williams 1966: 127), ac yn sgil hynny, daeth llenyddiaeth yn fwyfwy pwysig i gyflawni eu swyddogaeth

addysgol a phregethwrol, gan alluogi'r offeiriaid i ganolbwyntio ar eu swyddogaethau sagrafenol (Williams 1991: 149). Y mae'r *Drych Kristnogawl* yn ymdrech i ddatrys y broblem hon yn achos dysgeidiaeth yr Eglwys ar farwolaeth a'r bywyd tragwyddol, gan geisio sicrhau na fyddai diffyg offeiriaid yn achosi gormod o bryder i Gatholigion wrth farw.

### *Coelio'r Saint*

Y mae *Coelio'r Saint* yn destun apologetig sydd yn trafod yr un materion â phenawdau olaf *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, sef credoau Catholig y dadleuai'r Diwygwyr yn eu herbyn. Traethir natur y Cymun, cymuno dan rith bara yn unig, sef na ddylid rhoi'r cwpan i'r llyegwyr wrth gymuno, Purdan a gweddïo dros y meirw, ymbil ar y saint a phwysigrwydd eu hanrhydeddu hwy a'u gweddillion, sancteiddrwydd delwau, yn enwedig llun y Groes, ac effeithlonrwydd pererindota (Bowen 1978: 322). Eir i fwy o fanylder ar bob pwnc nag a wnaed yn y testun cynharach, gan ymestyn y ddadl dros 300 o dudalennau. Y mae'n bosibl fod Gwyn wedi cael ei ysgogi i fynd yn ôl at y drafodaeth hon yn sgil ymddangosiad cyfieithiad Cymraeg gan Morris Kyffin o lyfr yr esgob Jewel ar ddysgeidiaeth Eglwys Loegr (Bowen 1999: 39). Gellir gweld o'r disgrifiad uchod o gynnwys y llyfr bod Gwyn wedi bachu ar y cyfle a gafodd tra'n llochesu yn Werngoch. Rhoddodd ateb mwy cynhwysfawr i syniadaeth y Protestaniaid ar y pynciau hyn yn *Coelio'r Saint*, llyfr a benodwyd at y dasg hon, nag a oedd yn bosibl iddo yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*. Y mae'r tri llyfr oll yn defnyddio arfer Gwyn o gefnogi ei ddadleuon â dyfyniadau o'r Ysgrhythrau a'r Tadau Eglwysig ac, yn wir, defnyddir yr un awduron a'r un llyfrau fel ffynonellau ynddynt, yn enwedig Awstin a Sierom,<sup>6</sup> yn union fel y mynnai Allen. Ysgrifennwyd *Coelio'r Saint* ar yr un pryd ag yr oedd llawer o'r alltudion Seisnig, gan gynnwys Stapleton, yn ysgrifennu llyfrau Lladin fel rhan o ymgyrch ryngwladol yn erbyn statud 1592 a drymhaodd y dirwyon am reciwsantiaeth a gwahardd Catholigion rhag symud mwy na phum milltir i ffwrdd o'u cartrefi. Diddorol yw ystyried, felly, pam y dewisodd Gwyn ysgrifennu yn Gymraeg yn hytrach nag ymuno â'r ymgyrch honno, gan ei fod yn ei wneud yn eithaf unigryw ymysg ei gyfoedion Seisnig.

### *Cyfieithiadau: Summa Casuum Conscientiae a Llyfr y Resolution*

---

<sup>6</sup> Gw. y bennod ar y ffynonellau.

Llyfr ar ddiwinyddiaeth foesol yw addasiad Gwyn o *Summa Casuum Conscientiae*, testun Lladin poblogaidd iawn gan Francisco Toledo a ddefnyddid fel llawlyfr ar gyfer periglorion. Trafodir sut i fyw'r bywyd Cristnogol yn feunyddiol, gan sôn am gadw'r Sul, peidio â chamdrin gweision a materion pob dydd o'r fath. Sonia penodau agoriadol y fersiwn Ladin wreiddiol am bwysigrwydd cyffes reolaidd, ond oherwydd amgylchiadau'r genhadaeth a grybwyllwyd yn gynharach, ni chyfieithodd Gwyn mo'r rhain, eithr canolbwyntiodd ar y rhannau o'r llyfr a fyddai'n fwyaf perthnasol i'w ddarllenwyr (Bowen 1999: 40-1). Ond nid cyfieithu'n unig a wnaeth Gwyn, eithr addasu'r testun ar gyfer cynulleidfa Gymraeg o'r Gogledd-Orllewin. Cynhwysir darn hir yn rhybuddio bod môr-ladrad a gwerthu eiddo a ddygwyd yn bechod, er enghraifft, a dadleuodd Geraint Bowen mai oherwydd cyffredinolrwydd môr-ladrad yn Sir Gaernarfon ac Ynys Môn y cynhwyswyd y darnau hynny (Bowen 1968: 25).

Yr ail destun a gyfieithodd Gwyn yw llyfr defosiynol poblogaidd Robert Persons, *A Manuall or Meditation* (1582), sef llyfr o weddïau poblogaidd y gellid eu darllen yn lle mynd i'r offeren os nad oedd offeiriad ar gael. Fe'i cyhoeddwyd gan John Davies Mallwyd o dan y teitl *Llyfr y Resolution*, a dywedir bod cyfieithiad Gwyn ganddo wrth law tra roedd yn darparu ei fersiwn yntau ohono (Davies 1885: 7-8). Er gwaethaf ei enwogrwydd fel Iesuwr pybyr, bu cryn barch tuag at lyfrau defosiynol Persons, a chyhoeddwyd ferswin Brotestannaidd o'r *Manuall or Meditation* yn Saesneg gan Edmund Bunny yn 1584 (McNulty 1959: 274-5). Enghraifft arall yw hyn o lenyddiaeth yn cymryd lle offeiriad pan oedd angen am hynny.

Gwelir o'r disgrifiadau hyn o lyfrau Gwyn mai llyfrau wedi eu hanelu at anghenion penodol y gymuned Gatholig yng Nghymru yw pob un ohonynt. Nid oes yn eu plith yr un llyfr dyneiddiol yn trafod yr iaith Gymraeg a'r angen i'w hachub a'i haddasu fel *Gramadeg* Gruffydd Robert, neu yn traethu themâu eraill y Dadeni fel gwyddoniaeth neu rethreg. Yn hytrach, gwelwn ddau lyfr yn amddiffyn y grefydd Gatholig rhag haeriadau Jewel, un yn egluro safbwynt yr Eglwys ar babyddiaeth eglwysig, un yn trafod y bywyd Cristnogol, un arall yn trafod diwedd y bywyd hwnnw, a llyfr defosiynol at ddefnydd y lleygwyr. Ymgais yw'r llyfrau hyn i lenwi'r bwlch yn absenoldeb digon o offeiriad, gan roi i Gatholigion Cymru ddigon o eglurhad o ddsygeidiaeth grefyddol a gwleidyddol-gymdeithasol yr Eglwys Gatholig i wrthsefyll ymgais y wladwriaeth Brotestannaidd i'w didoli o'r Hen Ffydd. Ym mhob achos, gwelwn fod Gwyn yn dilyn trywydd yr awduron Seisnig a adwaenai'n dda trwy'r rhwydweithiau Catholig y bu'n rhan ohonynt yng Nghymru, Lloegr ac ar y cyfandir,

a'i fod yn defnyddio llenyddiaeth fel rhan annatod o'r genhadaeth (Shagan 2005: 11), ac at y perwyl hwnnw'n unig, yn hytrach na saernïo ei iaith na thrafod dysg y dyneiddwyr.

### *Arddull*

Ysgrifenna Gwyn mewn arddull lafar, bregethwrol iawn. Mae'n tueddu i fod braidd yn ailadroddus, oherwydd yr angen iddo sicrhau bod ei ddarllenwyr wedi amgyffred â'i syniadau'n drylwyr, a'u bod wedi'u perswadio ganddo. At y ddiben honno, siarada'n uniongyrchol â'r darllenwr yn aml iawn, 'cymerwch sampal os mynwch ynoch ych hvan (665), ag yna gwybyddwch er tario y'n Prynwr yng hylch pedair mil o 4 mil o flynydde flynyddoedd heb ddwad y'n rhyddhau, etto na thybygwch fod pawb yn golledig ar aned kyn y ddyfodiad ef (1092-4).' Mae hon yn ddyfais bregethwrol effeithiol iawn, ac mae'n debyg bod Gwyn yn defnyddio'r un arddull yn ei bregethu. Yn wir, oherwydd yr arddull a ddefnyddiwyd ynddynt, gellid edrych ar lyfrau gwreiddiol Gwyn fel pregethau ysgrifenedig. Nododd Bowen fod Gwyn yn tueddu dyblu geiriau er mwyn atgyfnerthu pŵer rethregol ei ddadleuon, a'i fod wedi codi'r arfer hon oddi wrth Thomas Stapleton. Mae Bowen yn disgrifio'r arddull hon fel 'nodweddion arddull homiltig, arddull y pulpud' (Bowen 1970b: 137), a gellir gweld effaith hyfforddiant pregethwrol Gwyn yn glir yma. Ceir y dyblu geiriau yn *Coelio'r Saint*, ac yn y *Drych Kristnogawl*, lle tueddir i roi gair deheuol a gair gogleddol ochr yn ochr â'i gilydd (Gwyn 1996: xvii). Ni cheir mohono i'r un graddau yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* fodd bynnag, felly dichon ei bod yn nodwedd y tyfodd Gwyn yn fwy hyderus o'i defnyddio wrth i'w yrfa fynd rhagddo.

### *Themâu Gwyn*

Nid pwrpas y llyfrau'n unig sy'n gosod llyfrau Gwyn yng nghyd-destun canon yr awduron reciwsantaidd Seisnig, ond hefyd y themâu a geir ynddynt. Fel y gwelir, aeth Gwyn ati mewn rhai o'i lyfrau i gyflwyno dadl Saesneg i'r Cymry, a'u galluogi i gymryd rhan ynddi trwy gyfrwng eu mamiaith. Gellid, felly, ystyried llyfrau Gwyn yn rhan o rwydwaith ehangach o lyfrau Saesneg a Lladin, ond yn rhan a oedd yn seiliedig ar egluro themâu'r rhwydwaith hwnnw i'w gyd-Gymry na fedrai ddeall mohonynt yn yr ieithoedd gwreiddiol. Y thema fwyaf amlwg yn ddiamau yw'r ddadl rhwng Jewel a'r awduron Catholig alltud ynghylch gwirionedd y Ffydd Gatholig. O ateb cyntaf Henry Cole yn 1560, datblygodd y ddadl nes bod llawer o staff a myfyrwyr Douai wedi ymateb i her Jewel gan ysgrifennu llyfrau yn profi

dilysrwydd Catholigiaeth trwy dystiolaeth y Tadau a'r Beibl.<sup>7</sup> Wrth gwrs, ysgrifennwyd y llyfrau hyn yn Saesneg ac yn Lladin, ac felly byddai'r rhan fwyaf o'r Cymry wedi bod yn glustfyddar i'r dadleuon ac yn anymwybodol o ymdrechion y Catholigion Seisnig i ddadlau achos yr Eglwys. Un o'r diffygion a welodd Gwyn yn yr *Athravaeth Gristnogol* oedd nad oedd ond wedi gosod credoau'r Eglwys Gatholig gerbron y bobl, heb wneud ymdrech i brofi eu gwirionedd drwy ddyfynnu'r Ysgrhythurau a'r Tadau,

...hyn y gid ny dydiw y gwyr da rheini yn meddwl fod y Kymry wedi myned kyn belled a hyn, 55 onyd y bod yn wastod yn pyrhay yn ffyddlon, ag yn barod y gredy y'r Eglwys Gatholig, ym hob peth, ag na bydde raid pryfio y ddynt, vn pwnk o'i ffydd fel y may'n rhaid y'r gwyr anffyddlon, onyd tybied fod yn ddigon dangos yddynt hwy yn fyr holl bynkie'r (ffydd Gatholig) (53–8).

Mewn cyferbyniad, yr oedd yn llawn cymeradwyaeth i'r hyn yr oedd y Saeson wedi ei wneud i'r perwyl hwnnw, gan ddweud bod ymdrechion y cenhadon yn Lloegr yn golygu bod y gymuned Gatholig yn 'chwanegy beynydd' (2730). Os gwir yw honiad Geraint Bowen fod Gwyn wedi ysgrifennu *Coelio'r Saint* fel ateb i gyfieithiad Morris Kyffin o *Apologia Ecclesiae Anglicanae Jewel*, gallwn weld pa mor bwysig iddo oedd ymuno â'r ddadl hon, a rhoi ateb Cymraeg i her Jewel fel a gafwyd yn Saesneg.

### *Pabyddion eglwysig*

Y mae cwstiwn y pabyddion eglwysig hefyd yn thema fynych yng ngwaith Gwyn sy'n deillio o lenyddiaeth a thrafodaeth Gatholig, yn hytrach nag o lenyddiaeth Gymraeg ei gyfoeswyr. Er mai *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* yw'r testun a gysylltir â phabyddiaeth eglwysig, ceir cyfeiriadau at yr angen i beidio â mynychu'r gwasanaeth Anglicanaidd ym mhennod olaf *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* hefyd (9116–32). Fel y soniwyd eisoes, yr oedd hon yn ddadl o gryn bwysigrwydd i'r gymuned Gatholig, ac yn enwedig i'r offeiriad, ac y mae'n bosibl pe na byddai awdurdodau'r Eglwys Gatholig wedi gorchymyn cadw draw o'r eglwysi a pherswadio'r bobl i beidio â chydymffurfio, mai cilio i fod yn dueddiad uchel-eglwysig yn yr Eglwys Anglicanaidd fyddai hanes Catholigiaeth Lloegr, fel a ddigwyddodd yn Sgandinafia (Cameron 2012: 403). Yr oedd Gregory Martin wedi ysgrifennu llyfr ar yr un thema, sef *A Treatise of Schisme* (1578), ryw ddwy flynedd cyn i Gwyn a Persons roi pin ar bapur yn Rhufain i ysgrifennu *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* ac *A brief discovrs contayning certayne reasons why Catholiques refuse to go to Church*, a

---

<sup>7</sup> Am restr cyflawn o'r llyfrau a ysgrifennwyd yn erbyn Jewel, gw. A. C. Southern, *Elizabethan Recusant Prose 1559–1582* (London and Glasgow: Sands & Co., 1950), tt. 61–6.



defnyddia'r un dadleuon ag a ddefnyddient hwythau yn nes ymlaen. Wedi dweud hynny, y mae mwy o debygrwydd rhwng dadleuon Martin a Persons na rhyngddynt hwythau a Gwyn. Y mae'n debyg mai'r amgylchiadau crefyddol gwahanol a fodolai yng Nghymru a Lloegr yn y cyfnod sy'n egluro hyn. Yr oedd Catholigiaeth yn gryfach yng Nghymru nac mewn rhannau helaeth o Loegr erbyn teyrnasiad Elisabeth, fel y gellir gweld o benderfyniad Synod Southwark i ganolbwyntio'r genhadaeth ar y tri rhanbarth (a Chymru yn un ohonynt) lle'r oedd yr Hen Ffydd ar ei chryfaf, a'r ffaith bod oddeutu un Cymro ym mhob tri yn arddel cydymdeimladau Catholig o hyd yn 1603, er mai dim ond 808 a wrthododd fynychu'r eglwysi plwyf yn gyfan gwbl y flwyddyn hon (Mullet 1998: 29). Dywedir hefyd bod rhai o glerigwyr esgobaeth Llandaf yn dal i ddyrchafu'r Aberth yn y gwasanaeth, ac yn ymarfer rhai defodau Catholig eraill wrth fedyddio, wrth gladdu, ac wrth eglwysa gwragedd, sef eu bendithio wrth iddynt ddod i mewn i'r eglwys am y tro cyntaf ar ôl iddynt esgor, mor ddiweddar â 1583 (Williams 1948). O ystyried y posibiliad bod Gwyn a Persons wedi cydweithio wrth ysgrifennu eu llyfrau ar y pwnc hwn, gellir gweld unwaith eto fod Gwyn yn cyfrannu at drafodaeth Seisnig yn yr hyn y mae ef yn ei ysgrifennu.

### *Undeb eglwysig*

Thêma arall a rannai Gwyn gydag awduron Catholig eraill ei oes yw'r pwyslais y mae'n ei roi ar undeb yr Eglwys. Yr oedd hon yn thema a unai awduron Catholig cyn ac yn ystod y Gwrthddiwygiad, ac yn wir trwy holl hanes Cristnogaeth. Yr oedd y thema hon wedi bod yn bwnc trafod pwysig wrth i Harri VIII ymadael â'r Eglwys Gatholig; dywedodd Thomas More yn ystod ei brawf am deyrnfradwriaeth na allai dderbyn ysgariad y brenin er i holl esgobion Lloegr ei dderbyn, oherwydd nad oedd wedi cael ei dderbyn gan esgobion Ffrainc nac Awstria (Wilson 2009: 224–5). Gwelir pwysigrwydd More i Gwyn yn y ffaith iddo gael ei enwi fel un o'r saint y mae ei weddillion yn cyflawni gwyrthiau yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* (8803). Yr oedd awduron Catholig wedi dadlau na ddylid torri undeb yr Eglwys gan ddyfynnu o *De Unitate Ecclesiae* Cyprian i gefnogi eu safbwynt, a phwysleisio pa mor bwysig oedd undeb eglwysig i ddysgeidiaeth Awstin. O'u cymharu â hyn, tueddai'r Protestaniaid i bwysleisio dysgeidiaeth Awstin ar gyfiawnhad drwy ffydd, a dyna'r union beth a geir gan Gwyn.

Yn ogystal â hyn, rhanna Gwyn bryderon ei gyd-offeiriaid seciwlar ynglŷn â'r union ffurf y dylai'r genhadaeth ei chymryd. Bu dau brif fath o offeiriad yn cenhadu yng Nghymru a Lloegr, er bod urdd y Benediaid yn cymryd rhan yn y genhadaeth hefyd (Bossy 1975: 29–

31), sef yr offeiriaid seciwlar a'r Iesuwy. Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith bod rhai ymysg yr offeiriaid seciwlar yn amau cymhellion yr Iesuwy, ac yn enwedig eu cysylltiad gyda choron Sbaen; tueddai rhai i'w hamau oherwydd eu ffyddlondeb diarhebol i oruchafiaeth y Pab, a oedd yn rhwystr i weddill y gymuned ennill goddefgarwch y frenhines ym marn rhai o'r *Apellants* (Bossy 1975: 39). Yn wir, disgrifiodd Thomas McCoog y rhwyg fewnol hon yn rhengoedd y clerigwyr Catholig fel 'nodwedd barhaol ddi-derfyn ac undonog a daflodd ei gysgod ar bopeth' (McCoog 2015: 473). Ond yr oedd gan y ddwy blaid syniadau tra gwahanol am sefyllfa'r Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr, a'r hyn a oedd angen ei wneud i'w hadfer.

Credai'r Iesuwy fod yr Eglwys fel y bu yn amser Mari wedi darfod, a bod angen cenhadaeth yn ystyr wreiddiol y gair, sef bod Cymru a Lloegr yn wledydd paganaidd yr oedd angen eu troi at Gristnogaeth. Dyna oedd agwedd Robert Persons, er enghraifft, yn ei *Memorial for the Reformation in England* (1596) (Bossy 1975: 20–3). Dadleuai Persons a'i gyd-Iesuwy mai tiriogaethau cenhadol oedd Cymru a Lloegr, ac y dylid rheoli'r genhadaeth yn ôl y nod hwnnw, sef y dylai trefniant y genhadaeth fod yn hyblyg, ac o dan reolaeth pobl a oedd yn genhadon o argyhoeddiad, sef hwythau. Mewn cyferbyniad â hyn, credai'r offeiriaid seciwlar nad oedd yr Eglwys Gatholig erioed wedi darfod yng Nghymru na Lloegr, ac mai bwlch yn ei hanes oedd y sefyllfa yr oeddent ynddi.<sup>8</sup> Oherwydd hyn, tueddent i bwysleisio traddodiad a hierarchaeth y Ffydd, oherwydd yr ystyrient eu bod mewn llinach a oedd heb ei dorri â'r Eglwys Ganoloesol (Marshall 2012: 182). Gwelir yr un tueddiad ym mhrotestiadau Gwyn ynghylch hynafiaeth y Ffydd a'i honiad nad oedd hi erioed wedi marw yng Nghymru a Lloegr:

..y may chwi welwch hefyd yn Lloyger er y gwaytha wyr Catholig nyny mysc yn chwanegy beynydd, ie yn gimint (os mynnwn ni ddywedyd y gwir fel y gwddoch yn dda) a bod .4. Catholig yn Lloyger am vn opiniadwr... (2728–32).

Dyma paham yr arferai ddyfynnu dadleuon Awstin yn erbyn y Donatyddion a'u defnyddio yn erbyn y Protestaniaid, fel ffordd o brofi nad oedd y Diwygiad Protestannaidd wedi creu unrhyw fwlch rhwng Eglwys Gatholig yr Oesoedd Canol a'r Eglwys fel ag yr oedd yn ei gyfnod ef (2019–32). Wedi dweud hyn, anodd yw barnu ar ba ochr yn union y safai Gwyn, oherwydd nad yw byth yn beirniadu'r Iesuwy. Yr oedd Gwyn yn eithaf unigryw yn hynny o

---

<sup>8</sup> Gwelir yr un awydd i brofi hynafiaeth a pharhad yr Eglwys Gatholig yn Lloegr yn Thomas Stapleton, *A Fortresse of the Faith*, gol. D. M. Rogers, English Recusant Literature 1559–1640 [Antwerp 1565] (Scolar Press, 1973), clxiii, t. 96v.

beth, gan fod y rhan fwyaf o'r Cymry ar y cyfandir yn elyniaethus i'r Iesuwr, a'r Cymry ymysg ei gyd-offeiriaid seciwlar yn tueddu i'w gwrthwynebu yn yr helyntion a godai o bryd i'w gilydd rhwng y ddwy garfan (Williams 1901: 79–93).

O ganlyniad i'w cred eu bod yn cynrychioli dilyniant yr Eglwys gyn-Ddiwygiadol, tueddai'r offeiriaid seciwlar i gredu y gallent adfer yr Eglwys hon, ac felly nad oedd angen am strwythur eglwysig ystwyth yr Iesuwr, eithr am ailsefydlu'r hierarchaeth, a'r gyfundrefn esgobol (Norman 1985: 7, 24). Cymharer tueddiad Gwyn i ystyried y Cymry fel cenedl a oedd at ei gilydd yn dal yn Gatholig, er ei bod wedi syrthio i mewn i sgism (Gwyn 1970: 4), â disgrifiad Persons o'r gwahanol enwadau a fodolai yn Lloegr, sef Catholigion, Protestaniaid, Piwritaniaid a *Householders of Love* (Persons 1958: iii).

### *Dylanwad y Saeson*

Yn ogystal â'r gwahaniaethau cenedlaethol ac ieithyddol a fodolai yn Ewrop, rhannwyd y cyfandir yn grefyddol gan y Diwygiad Protestannaidd, gan ychwanegu lefel o atgasedd crefyddol at yr ymgecru rhwng gwledydd a fu gynt. Golygai hyn ei bod bellach yn bosibl i awdurdodau Anglicanaidd Lloegr a Chymru feirniadu'r alltudion Catholig am eu crefydd, nid yn unig oherwydd ei bod yn anghyfreithlon, ond hefyd oherwydd ei bod yn estron. Un o'r camau cyntaf a gymerwyd yn Lloegr i bwysleisio natur estron Catholigiaeth oedd dechrau cyfeirio at y Pab fel esgob Rhufain. Ceir yr enghraifft gyntaf o'r arfer hon yn *The Articles devised by the whole consent of the King's most honourable council* (1533), pamffledyn a ddadleuai achos yr Oruchafiaeth Frenhinol, sef mai'r brenin, yn hytrach na'r Pab, oedd yn bennaeth yr Eglwys, yn ystod teyrnasiad Harri VIII (Marshall 2012: 51). Dau ddiben yr arfer hwn oedd pwysleisio'r Oruchafiaeth, a phwysleisio natur estron y babaeth fel esgobaeth Eidalaid yn bell o Loegr, ac felly heb unrhyw awdurdod dros y deyrnas honno. Parhaodd y tueddiad hwn o gymharu Seisnigrwydd Eglwys Loegr ag estroniaeth yr Eglwys Gatholig i mewn i deyrnasiad Elisabeth. Ymosododd Jewel yn ffyrnig yn ei lyfr *Apologia Ecclesiae Anglicorum* (1562), ar wreiddiau Rhufeinig Awstin o Gaer-gaint a'i gomisiwn pabol, fel prawf ei fod wedi dod â cham-grefydd i mewn i Loegr, a llygru'r Gristnogaeth bur yr honnai Jewel bod y Saeson yn ei harddel cyn ei ddyfodiad ef (Highley 2008: 112). Y mae Saunders Lewis hefyd yn nodi fod awduron Protestannaidd Cymreig fel Salesbury a'r esgob Richard Davies yn chwilio am dystiolaeth o eglwys gynnar wrth-babyddol o'r fath (Lewis 1947: 37–46). Yn wir, bu i Salesbury gyhoeddi llyfr, sef *Ban wedy i dynny* (1550), yn dwyn

enghreiffitiau allan o Gyfraith Hywel Dda i brofi bod offeiriaid Cymreig yn cael priodi yn yr oesoedd canol cynnar, fel rhan o'r ymgyrch hon.

Nid oedd y Catholigion hwythau yn rhydd oddi wrth deimladau drwg tuag at bobl o genhedloedd eraill, hyd yn oed pan oeddent yn arddel yr un grefydd â hwy. Bu colegau cyfandirol yr alltudion Seisnig, Cymreig, Albanaidd a Gwyddelig yn feithrinfeydd teimladau cenedlaetholgar yn ogystal â thai hyfforddiant i offeiriaid. Yn wir, oherwydd natur galwedigaeth y darpar-offeiriaid, yn enwedig y ffaith bod llywodraeth Loegr yn eu portreadu fel gweithredwyr dros wledydd tramor, tueddai eu cenedlaetholdeb i ddwysáu yn hytrach na gwanhau tra roeddent oddi cartref (Walsham 2014: 20). Arweiniodd hyn at ffrae rhwng y myfyrwyr Cymreig a Seisnig yng Ngholeg y Saeson yn Rhufain, a achoswyd yn rhannol oherwydd y credai'r Saeson fod pennaeth y Coleg, Morys Clynnog, yn ffafrio'r Cymry yn fwy na hwy. Ys dywed Ralph Sherwin, a ddaeth yn nes ymlaen i fod yn un o ferthyron cyntaf Coleg Rhufain:

this maketh many of us to wish ourselves Welshmen, because we woulde gladly have so good provision as they, & being countrymen to our *Custos*, we should all be used a like: excepting Maister Doctors Nephew *Morganus Clenokus*, he must be in silke, though all the rest goe in a sacke (Munday 1582: 59–60).

Apeliodd y Saeson at y Pab, a ddiswyddodd Clynnog a rhoi'r Coleg o dan reolaeth yr Iesuwr, ac o ganlyniad i hyn bu gostyngiad yn niferoedd y Cymry yn y Coleg, ac yn wir yn y genhadaeth yn gyffredinol (Nice 2006: 24). Yr oedd agweddau gwrth-Seisnig Clynnog ac agweddau gwrth-Gymreig y myfyrwyr o Saeson, felly, yr un mor gyfrifol am fethiant hir dymor y genhadaeth Gymreig ag yr oedd erledigaeth yr awdurdodau Protestannaidd. Diddorol hefyd yw nodi pa mor ddibynnol oedd y genhadaeth ar bersonoliaethau yn ogystal ag egwyddor.

Ym marn Persons, er bod gweledigaethau gwahanol Clynnog a'r myfyrwyr Seisnig o'r dyletswyddau eglwysig y dylent ymgymryd â hwy ar ôl iddynt gael eu hordeinio wedi bod yn ffactor bwysig yn y ddadl, gwir achos y broblem oedd 'a national quarrel... between the Englishe and the Welche' (Persons 1600: 86).

O'i gymharu â'r holl ddadleuon hyn ar sail cenedl, ymddengys gwaith Gwyn bron yn rhydd o unrhyw dueddiad i fod yn wrthwynebus i unrhyw un oherwydd ei genedligrwydd. I'r gwrthwyneb, y mae'r portread y mae Gwyn yn ei greu o'r gymdeithas Gatholig yn Lloegr, ac o'r gwledydd Catholig lle trigai ar y Cyfandir, yn un hollol bositif. Yn wir, yn ei gyfeiriad cyntaf atynt, defnyddia Gatholigion Lloegr fel *exemplum* i'r Cymry o sut y dylent hwy ymddwyn tuag at y cenhadon:

Mae y nych ymyl wyr bonyddigion yn Swydd (Longcaster) yn cadw rhyngthyn lawer o ffeiried [66v] yn ddirgel y ddywedyd y ddyn wasanaeth Duw pen y mynen, onyd y'ch plith chwi yn does vn o'r fath yma (155–8).

Awgryma'r frawddeg hon nad oedd lletya offeiriaid yr un mor gyffredin yng Nghymru ag yn Lloegr, ag y gallai hynny beri cryn broblem i Gwyn ar ei gylch cenhadol pan ddychwelai i Lŷn pe na fedrai ddarganfod tŷ i wasanaethu fel pencadlys a man offeren iddo. Cyferbynna Gwyn lwyddiant y Saeson ag ymdrech lipa'r alltudion Cymreig, a noda nad oedd cyfieithiad Clynnog o gatecism Ioannes Polanco yn ddigonol ar gyfer anghenion y Cymry, oherwydd nad oedd yn rhoi digon o sylw i apologetig (59–65).

Defnyddia Gwyn sawl *exemplum* yn *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* i wneud amryw bwyntiau i'w ddarllenwyr, megis profi cywirdeb Catholigiaeth, neu wirionedd gwyrthiau. Y mae'r bobl a ddisgrifir yn yr *exempla* hyn yn Saeson yn ddieithriad. Nid yw Gwyn yn cyfeirio at unrhyw Gymro neu Gymraes byw mewn modd positif, er y disgrifir rhai meirw, fel y Santesau Elen ac Wrswla, un o'r un mil ar ddeg o forwynion a ferthyrwyd yng Nghwlen gan yr Hynniaid a honnid iddi fod yn Gymraes, mewn termau ffafriol iawn (77–83, 8541–4). Y mae'r *exemplum* hiraf, hanes iachâd gwyrthiol Marged Jessop, yn arbennig o ddiddorol, gan ei fod yn disgrifio iachâd Saesnes ar y Cyfandir.<sup>9</sup> Y mae dwy ergyd i'r stori hon; canmolir ffydd Marged a'i ffyddlondeb i'r Eglwys Gatholig, a dangos eu bod yn angenrheidiol ar gyfer yr iachâd, ac yn ail disgrifir holl fframwaith y defosiwn Catholig y'i hiachawyd drwyddi, sef pererindod, addoli'r Sagrafen Fendigedig, cyffes a dŵr sanctaidd (6538–799). Nid dangos ffyddlondeb y Saeson Catholig i'r Hen Ffydd yn unig yw bwriad atgynhyrchu'r stori hon, ond hefyd fanteision bywyd defosiynol Catholig traddodiadol, gan gynnwys pethau a waharddwyd gan Eglwys Loegr ac a oedd o'r herwydd yn amhosibl i'w cael yng Nghymru. Portreadir Catholigiaeth y Cyfandir fel patrwm y dylai Catholigion Cymru anelu ato.

Dichon fod agwedd bositif Gwyn tuag at ei gyd-Gatholigion Seisnig a chyfandirol yn deillio o'i brofiadau wrth gael ei hyfforddi yn Douai, yn awyrgylch Seisnig iawn y Coleg, a oedd yng nghanol gwlad Gatholig. Er y bu iddo ffoi i'r Cyfandir fel y gwnaeth Gruffydd Robert a Clynnog, yn wahanol iddynt hwy, dyma ddarganfod ei hun wedi'i amgylchynu gan Saeson a oedd yn rhannu'r un dyheadau ag ef i fynd yn ôl i'w gwlad a'i hadennill i'r Ffydd. Bu cyd-destun Seisnig ei hyfforddiant, felly, yn cefnogi'i weledigaeth o'r genhadaeth, tra bod y ffaith eu bod wedi llwyddo i greu cymuned Gymraeg yn Rhufain a ddifethwyd wedyn gan

---

<sup>9</sup> Am drafodaeth ehangach ar stori Marged Jessop, gw. y bennod ar y ffynonellau.

Saeson ond wedi culio gweledigaeth Clynnog a gweddill awduron Ysgol Milan. Nid rhyfedd felly, bod Gwyn yn fwy agored ei feddwl na rhai o'i gyfoeswyr.

Mewn cyferbyniad â hyn, sylwa Angharad Price i Gymreictod yr alltudion yn yr Eidal ddod yn gostrel eu radicaleiddio (Price 2005: 8), ac i'w gweithgareddau droi o gwmpas eu Cymreictod a'u Catholigiaeth (Price 2005: 80). Portreada'r Eidal yn grud cenedlaetholdeb Cymreig yn y cyfnod modern cynnar, o'i chymharu â Chymru ei hun, a oedd yn enwog am ei ffyddlondeb i linach y Tuduriaiaid. Dywed fod hyd yn oed Siôn Dafydd Rhys, a ddychwelodd i Gymru wedi cyfnod yn astudio ym Mhadofa, yn tueddu i fframio'i genedlaetholdeb mewn termau gwrth-Seisnig (Price 2005: 81), felly y mae lle i gredu bod lleoliad Gwyn yn y Douai Seisnig wedi'i gadw rhag meithrin yr un atgasedd tuag at y Saeson, a pheri iddo eu hystyried mewn termau llawer mwy ffafriol.

### *Ffynonellau Gwyn*

*Sola scriptura*, 'yr ysgrythurau'n unig', sef y gred mai'r unig awdurdod crefyddol yw'r Beibl, oedd un o athrawiaethau pwysicaf y Diwygwyr. Er bod ffynonellau awdurdod eraill gan yr Eglwys Gatholig, bu'n rhaid i'r Gwrthddiwygwyr brofi bod yr Ysgrythurau'n eu cefnogi hwy yn hytrach na'r Protestaniaid. Defnyddiodd Gwyn ddyfyniadau Beiblaidd at y diben hwn, trwy eu gosod yn dystiolaeth fod ei ddadleuon wedi'u seilio ar y Beibl; yna cyflwynir dyfyniad gan un o'r Tadau Eglwysig i ddangos ei fod yn credu'r un peth. Trwy hyn, profir bod Catholigiaeth yn grefydd sy'n seiliedig ar yr Ysgrythurau, heb newid ei chredo dros y canrifoedd. Dadbrofir yn y modd hwn honiadau'r Diwygwyr bod yr Eglwys Gatholig yn anfeiblaidd a'i bod wedi llygru Cristnogaeth bur yr Eglwys Fore.

Defnyddiodd Gwyn y ffynonellau canlynol wrth gyfansoddi'r testun, gan ddyfynnu ohonynt, neu gyfeirio atynt heb ddyfyniad.<sup>10</sup>

#### *Yr Hen Destament*

Gen 3:14, 3:15, 3:5, 42:38, 37:26–27, 22:1–13, 22:12, 22:18, 22:17, 26:4, 28:14, 37:19, 48:16, 28:17.

Ex 20:4, 20:5, 25:18–20, 2:24, 3:4–5.

Num 22:13–18, 30:2, 21:8–10, 16:26.

Deut 17:8–11, 17:12, 23:21, 18:10–13.

Barn 6:37–38, 6:39–40, 7:16–22.

1 Sam 19:23–24, 1:1–16, 21:3–6, 28:14–20.

1 Bren 6:23–35.

2 Bren 19:34, 5:26, 5:1–15, 13:21.

Tob 12:12, 1:16–20.

---

<sup>10</sup> Rhoddir y cyfeirnodau Beiblaidd yn y drefn y maent yn ymddangos ynddi yn y testun.

Job 10:21–22, 7:9, 42:8, 5:1, 19:21.  
Salmau 15:2, 21:19, 88:2, 88:4, 88:5, 88:38, 88:31–37, 88:50–52, 60:3, 60:5, 104:8–11,  
101:24, 2:8, 2:7–8, 18:5, 18:6, 21:28, 56:6, 71:8, 71:19, 110:4, 98:5, 21:27, 21:30, 67:36,  
96:7, 149:1, 21:26.  
Eccles 4:30, 7:40, 10:15.  
Eseia 30: 26, 7:14, 9:6, 9:7, 51:6–8, 54:8–10, 59:20–21, 2:3, 2:2–3, 11:9, 49:12, 18, 49:20,  
52:10, 54:1–3, 60:1–5, 61:9.  
Jer 17:12.  
Esec 37:26–28, 30:13.  
Dan 9:25–26, 7:14, 2:34–35, 10:13.  
Joel 2:28.  
Micha 5:2, 4:1–3.  
Hab 3:3.  
Seff 3:9.  
Hag 2:8, 2:10.  
Sech 9:11, 9:9, 9:10, 1:12, 1:13, 13:2.  
Mal 1:11, 2:7.  
2 Mac 15:12–14.

*Testament Newydd*

Mth 17:4, 13:43, 10:16, 9:24–25, 9:20–22, 28:20, 16:18, 12:25, 24:23, 5:14, 18:15–17, 24:26,  
28:19–20, 18:17, 16:18–19, 23:2–3, 26:26, 26:26–28, 9:21, 8:29, 16:16, 16:17.  
Mc 9:5, 3:13–19, 16:17–18, 16:20, 14:22–24, 1:24, 1:25.  
Lc 24:44, 24:46–47, 22:31–32, 22:19–20, 10:16, 19:22–26, 15:10, 3:15–16.  
In 18:36, 6:51, 19:15, 1:11, 14:16–17, 15:16, 10:8, 14:18,26, 16:12–13, 22:5–17, 11:50,  
11:51, 6:47–66, 3:1–9, 21:17, 6:55, 12:31, 18:6, 2:1, 5:1–7, 9:29, 10:1–13, 10:4–5, 3:5.  
Act 2:41, 8:1–40, 9:15, 13:46–47, 1:8, 13:1–52, 20:29, 10:10–16, 11:5–10, 4:29–30, 5:3,  
27:38–44, 16:17, 16:18.  
Rhuf 11:18, 1:8, 8:34.  
1 Cor 2:9, 3:22, 4:19, 11:16, 14:33, 11:23–24, 12:27, 12:14–17, 12:11, 13:9–10, 12:4–9,  
12:11, 12:28–9.  
2 Cor 3:5, 12:1–4, 10:12–18.  
Gal 3:29, 3:8, 4:27.  
Eff 4:5, 1:22–23.  
Phil 4:3.  
Col 2:15.  
1 Thes 1:5, 1:9.  
2 Thes 2:14.  
1 Tim 6:3–4, 3:15, 5:11.  
2 Tim 3:9, 2:17.  
Heb 10:1–4, 10:1.  
2 Pedr 2:11–12.  
1 In 2:1.  
Dat 9: 6, 9:3–6, 3:16.

*Y Tadau Eglwysig*<sup>11</sup>

Acwin *Sermones* (1570)

Ambrosiws (1527, Erasmus) : *Epistola XXII*

*Exposito Evangelii Secundum Lucam*

*De Dignitate Sacerdotali*

*De Mysteriis*

*De Sacramentis*

*De Spiritu Sancto*

Athnasiws (1520, Tortelius): *Apologia contra Arianos*

*Epistolae Athanasii et Romanorum Pontificum*

*Epistola Encyclica*

*Epistola V, Pauli Constantinopolitani Episcopi ad Sanctum Theodorum Romanum Pontificem*

*Homilia in SS. Patres et Prophetas*

*Sermo de Descriptione Sanctae Mariae*

Awstin: *Contra epistulam Manichaei quam vocant fundamenti* (1506 Basel, Amberbach)

*Contra epistulam Parmeniani* (1506 Basel, Amberbach)

*Contra Faustum Manichaeum* (1506 Basel, Amberbach)

*Contra Litteras Petiliani Donatistae Cirtensis Episcopi* (1506 Basel, Amberbach)

*De Baptismo, contra Donatistas* (1506 Basel, Amberbach)

*De Civitate Dei contra Paganos* (1468 Rhufain)

*De Cura pro Mortuis* (1506 Basel, Amberbach)

*De Paradiso* (1506 Basil, Amberbach)

*De Symbolo ad Catechumenos* (1506 Basel, Amberbach)

*De Trinitate* (1475)

*De Unitate Ecclesiae* (1506 Basel, Amberbach)

*De Utilitate Credendi* (1506 Basel, Amberbach)

*De Vera et Falsa Poenitentia* (1506 Basel, Amberbach)

*De Vera Religione* (1506 Basel, Amberbach)

*Enarrationes in Psalmos* (1506 Basel, Amberbach)

*Epistola LIII* (c. 1470)

*Epistola LXXXIII Ad Novatum* (c. 1470)

*Epistola XCIII Ad Vincentium* (c. 1470)

*Epistola CLVII Ad Hilarium* (c. 1470)

*Epistola CLXXVI ad Innocentium* (c. 1470)

*Epistola CLXXXIV ad Petrum* (c. 1470)

*Epistola CLXXXV De Correctione Donatistarum* (c. 1470)

*Epistola CCIX* (c. 1470)

*Epistola CCXXXII Maudarensibus* (c. 1470)

*Epistola Encyclica* (c. 1470)

*In Iohannis evangelium tractatus* (1506 Basel, Amberbach)

*Liber de Spiritu et Anima* (1506 Basel, Amberbach)

*Psalmus contra partem Donati* (1506 Basel, Amberbach)

---

<sup>11</sup> Rhoddir dyddiad y golygiad y byddai Gwyn yn fwyaf tebygol o fod wedi ei ddefnyddio, hynny yw, naill ai'r golygiad cyntaf, neu'r un a fyddai'n uchaf ei glod, fel golygiadau y dyneiddwyr Erasmus ac Amberbach. Rhoddir enw'r golygydd a'r man cyhoeddi pan fônt yn hysbys.



*ad Parthos* (1506 Basel, Amberbach)  
*Sermo XLVI, De Pastoribus* (1477)  
*Sermo CLX de Pascha Tractatus in Epistolam Joannis* (1477)  
*Sermo CXX* (1477)  
*Sermo CLXXXI Contra Pelagianos* (1477)  
*Sermo CXCIV De Annuntionae Domini* (1477)  
*Sermo CCCVII In Decollatione beati Joannis Baptistae* (1477)

Basil (c. 1530): *De Spiritu Sancto*  
*Epistola LXIX ad Athanasium*  
*Epistola CLXXXVIII de Canonibus*  
*Homilia in sanctos quodraginta martyres*

Bernard o Clairvaux (1508 Paris): *Epistola VI ad Adam Monacham*  
*Epistola LXV Ad Alvisum Abbatem Aquiscinti*  
*Sermo in Coena Domini*

Clement: *Epistola Decretales II* (c. 1525)  
 Climacus: *Scala Paradisi* (1504 Sbaen)

Cyprian o Garthag (1563, Manutius) : *De Ecclesiae Catholicae Unitate*  
*De Zelo et Livore*  
*Epistola I Ad Donatum*  
*Epistola IV*  
*Epistola LX*

Cyril o Alexandria (c. 1440): *Adversus Anthropomorphitas*  
*Glaphyrorum in Leviticum*  
*In Ioannem*

Chrysostom (1525 Erasmus): *Ad Populum Antiochenum Homilia II*  
*Ad Theodorum Lapsam*  
*Contra Judæos et Gentiles, quod Christus sit Deus*  
*De Incomprehensibili Dei natura, Homilia III*  
*De Sacerdotio*  
*Epistola ad Innocentium*  
*Homilia XXIV in Epistolam I ad Corinthios*  
*Homilia XLI in Epistolam I ad Corinthios*  
*Homilia XXVI in Epistolam II ad Corinthios*  
*Homilia VIII in Epistolam ad Ephesios*  
*Homilia LXXXIII in Matthaëum*  
*Homiliam in SS. Martyres Juventium et Maximinum*  
*In Epistolam ad Romanem Homilia XXIV*  
*In Proditionem Iudae*  
*Liturgia*

Epiphanius o Salamis (1543 Basel): *Epistola CXX*  
*Panarion*

Eusebius (1544 Paris): *Historia Ecclesiae*  
 Ephraim Syriac: *De Die Iudicii* (c. 1420)  
*Sermo II* (1475, Guldenbeek)

Fabianus: *Epistolae*<sup>12</sup>  
 Gennadius: *De Ecclesiasticis Dogmatibus* (1506 Basel, Amberbach)  
 Geoffrey o Clairvaux: *Vita Bernardi* (1174)  
 Gregori Mawr: *Dialogorum* (c. 1456)  
     *Epistola Ad Ioannem* (c. 1490)  
     *Moralia in Iob* (c. 1456)  
 Gregori Nazianzen (1569 Paris, Jaques de Billy): *Oratio XIX Ad Iulianum*  
     *Oratio in Laudem Athanasii*  
     *Oratio in Laudem S. Cypriani*  
     *Oratio in Laudem Sororis Suae Gorgoniae*  
 Gregory o Nyssa: *De S. Theodoro, martyre* (c. 1574)  
 Hilary o Poitiers: *De Trinitate* (1523 Basel, Erasmus)  
 Irenaeus: *Contra Haereses* (1526)  
 Optatus: *Historia Donatistarum* (1564)<sup>13</sup>  
 Origen: *In Iob* (1512)  
 Prosper o Aquitaine: *Liber Sententiarum Sancti Augustini* (1538 Fenis)  
 Pseudo-Amphilochius: *Vita Basili*<sup>14</sup>  
 Pseudo-Dionysius yr Areopagite: *De Ecclesiastica Hierarchia* (c. 1439)  
 Sierom (1514 Erasmus): *Apologia contra Rufinum*  
     *Commentarium in Amos*  
     *Commentariorum in Esaiaem*  
     *Comentariorum in Epistolam ad Titum*  
     *Commentarioli in Psalmos*  
     *Contra Vigilantium*  
     *Epistola XV ad Damasum*  
     *Epistola LXIII ad Theophilum*  
     *Epistola XLVI*  
     *Epistola LXXXIV ad Pammachiam et Oceanum*  
     *Epistola CVIII*  
     *Epistola CXLVI ad Evangelum*  
     *In Esaiaem*  
     *In Hieremiam*  
 Socrates Scholasticus: *Historia Ecclesiae* (1544 Paris, Stephanus)  
 Sozomen: *Historia Ecclesiastica* (1544 Paris, Stephanus)  
 Symmachus: *Constitutum Sylvestri*  
 Tertullian: *Liber de praescriptione haereticorum* (1521 Beatus Rhenanus)  
 Theodoret: *Hæreticarum fabularum compendium* (1556 Rhufain, Paulus Manutius)  
 Nikephorus Kallistos Xanthopoulos: *Historia Ecclesiastica* (1535)

*Llyfrau y tu cefn i'r testun*

<sup>12</sup> Yr oedd y golygiad cyntaf o *Epistolae Fabiani* yn rhan o *Patrologia Latina Migne* (1841-55), felly y mae'n debyg fod Gwyn yn gweithio gyda chopi llawysgrifol.

<sup>13</sup> Cyfieithiad Ffrangeg.

<sup>14</sup> Yr oedd y golygiad cyntaf o'r *Vita Basili* yn rhan o *Patrologia Graecae Migne* (1857-66), felly y mae'n debyg fod Gwyn yn gweithio gyda chopi llawysgrifol.

Richard Bristow: *A briefe treatise of diuerse plaine and sure wayes to finde out the truthe in this doubtful and dangerous time of heresie conteyning sundry worthy motiues vnto the Catholike Faith* (1574 Antwerp)

Morris Clynnog: *Athravaeth Gristnogawl* (1568 Milan)

Nicholas Ridley: *Certē Godly Learned and Comfortable Conferences between the Two Reuerende Fathers and Holye Martyrs of Christe D. Nicolas Rydley Late Bysshoppe of London and M. Hughe Latymer Sometye Bysshoppe of Worcester during the Tyme Theyr Emprysonmentes* (1556 Strasbourg)

Thomas Stapleton: *A Fortresse of the Faith* (1565 Antwerp)

Awdur anhysbys: *Canticum Canticorum*

*Evangelium Nicodemi*

*Epistola ad Laodicenses*

*Liber Pontificalis*

#### *Llyfrau Protestannaidd*

John Aylmer: *An Harborovve for faithfvll and trevve subiectes against the late blowne Blaste, concerning the Gouvernmēt of Vvemen, wherin be confuted all such reasons as a straunger of late made in that behalf, with a brief exhortation to OBEDIENCE* (1567 Llundain)

Jean Calvin: *Commentary on Amos* (c. 1557)

*Institutes of the Christian Religion* (1559)

Laurence Humphrey: *Vita Iuelli* (1573 Llundain)

John Jewel: *A Replie against the Romaine Religion, Which of Late Hath Bene Accompted Catholike* (1565 Antwerp)

*Apologia Ecclesiae Anglicorum* (1562 Llundain)

Martin Luther: *A Brief Confession Concerning the Holy Sacrament* (1528)

*Contra Henricum Regem Angliae* (1522)

*The Sacrament of the Body and Blood - Against the Fanatics* (1526)

Phillip Melancthon: *Loci communes rerum theologiarum seu hypotyposes theologicae* (1555)

#### *Llyfrau Eraill*

Bede: *Historia Gentis Anglorum* (1565 Antwerp)

Johannes Diaconus: *Vita Gregorii Magni* (1551 Guillard)

Nicolas Durand De Villegaignon: *De Consecratione, mystico sacrificio et duplici Christi oblatione* (1569 Paris)

*Breviarum Romanorum* (1568 Rhufain)

*Missale Romanum* (1560 Rhufain)

Er mai dymuniad Allen y dylai myfyrwyr Douai lythyru adref a ysgogodd Gwyn i ysgrifennu *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, mae'r testun hwn, o safbwynt deunydd ac arddull ysgrifennu, yn dangos dylanwad dau o athrawon eraill Douai, sef Richard Bristow o Gaerwrangon, rheithor y Coleg, a Thomas Stapleton o Swydd Gaerfuddai a oedd yn athro diwinyddiaeth yno. Bu Stapleton eisoes yn amlwg yn y dadleuon rhwng y Catholigion alltud a'r diwinyddion Protestannaidd gartref yn Lloegr, gan iddo ysgrifennu neu gyfieithu pum

testun cyn 1574 fel rhan o'r ddadl a ddatblygodd yn sgil pregeth Jewel (Southern 1950: 61–5). Fel y gwelir maes o law, y mae dyled Gwyn i ddau ohonynt, sef cyfieithiad Stapleton o *Historia Gentis Anglorum* Bede (1565 Antwerp), a'i lyfr apologetig *A Fortresse of the Faith* (1565 Antwerp), yn amlwg yn y testun.

Trown yn gyntaf at y defnydd a wneir o'r *Historia*. Fel y nodwyd uchod, bu Gwyn a'i gyd-genhadon yn awyddus i brofi hynafiaeth y grefydd Gatholig, a'i chymharu â newydd-deb Protestaniaeth. Bu hyn yn arbennig o wir yn achos hanes y ffydd yng Nghymru a Lloegr, gan i rai awduron Protestannaidd, yn enwedig Jewel, honni mai crefydd anghywir oedd y math o Gristnogaeth a dducwyd i mewn i'r wlad gan Awstin o Gaer-gaint, a honno'n grefydd a lygrodd y Gristnogaeth bur a fodolai yn y wlad cyn ei ddyfodiad (Highley 2008: 112). At y perwyl hwnnw, dywed Stapleton iddo gyfieithu'r *Historia* er mwyn dangos hynafiaeth a pharhad y grefydd Gatholig yn Lloegr (Stapleton 1568: 6<sup>v</sup>). Teimlwyd bod yr *Historia* mor ddefnyddiol yn y ddadl nes iddi a'r *Fortresse of the Faith* gael eu hargraffu yn yr un gyfrol (Highley 2008: 84). Gwelir bod awduron Protestannaidd yn ceisio profi eu dadleuon hwy yn yr un ffordd gan i *Ban Wedy y Dynny* Salesbury gael ei gyhoeddi gydag *Yn y Lhyvyr Hwnn* Syr John Prys, er mwyn profi hynafiaethrwydd offeiriaid priod.

Dyna, yn syml, yw'r ffordd y mae Gwyn yn defnyddio'r *Historia* yn ei destun yntau. Dyfynnir ohoni er mwyn dangos cyflwr crefyddol y Cymry yng nghyfnod Beda, neu eu dysgeidiaeth ar ryw bwnc neu'i gilydd, a dweud na ellid dadlau mai cyflwr neu ddysgeidiaeth Brotestannaidd oedd y pwnc hwnnw. Nid dilyn ôl Stapleton yn unig yn hyn o beth y mae Gwyn, oherwydd gwyddom hefyd i Allen annog y myfyrwyr i ddefnyddio Beda yn eu llythyrau er mwyn profi hynafiaeth y Ffydd (Highley 2008: 95). Gwelir enghraifft gynnar o'r dechneg hon yn y rhagymadrodd, pan ddyfynnir hanes Sant Garmon a Brwydr Haleliwia (108–16), er mwyn dangos ffydd Cymry'r Oesoedd Canol, a'u hymlyniad wrth yr Eglwys Gatholig. Yr ail ffordd y defnyddir yr *Historia* yw er mwyn rhoi enghreifftiau o Gymry, neu Saeson, yn dilyn defodau Catholig, fel gwrthbrawf i honiadau Jewel mai proto-Brotestaniaid oeddent. Dyna paham y cynhwysir stori gwas y brenin Coenridus (238–85) er enghraifft, fel y gellid dangos bod Saeson y cyfnod hwnnw yn rhoi pwyslais mawr ar gyffes. Cymherir hen ffyddlondeb y Cymry tuag at yr Eglwys Gatholig, a'r rhinweddau yr honna Gwyn a ddeilliai ohoni â chyflwr truenus y Gymru gyfoes. Cymerir enghreifftiau oddi wrth Beda, yn enwedig o fywyd Sant Garmon fel sant Cymreig a oedd yn nawddsant i lawer o blwyfi yng Nghymru, ac felly yn hysbys iawn i'r bobl a fyddai yn darllen y testun. Dengys yr enghraifft hon dechneg Gwyn yn glir:

Wrth fyddyllo y trahystra ar y ffiried yn ych mysc, pell ydych o ddiwrth arferon y Kymry yn yr hen amser. O blegid fel y may S. Bede yn dangos yn amser S. Garmon, royddech yn mawr hay ffiried yn fwy na neb. Meddyliwch ych bod yn kysay Crist yny weithred yma... (6048-51)

Cymherir crefydd ac ymddygiad y Cymry yn oes Sant Garmon â'u hymddygiad presennol, a dangos canlyniadau a phroblemau'r newid ymddygiad hwnnw. Bu'r *Historia* felly'n arf a alluogodd Gwyn i brofi bod yr hen Saeson a'r hen Gymry'n Gatholigion, ac y dylid eu hefelychu o'r herwydd.

Y mae dibyniaeth Gwyn ar *A Fortresse of the Faith*, ar y llaw arall, yn drymach o lawer. Yr oedd y llyfr hwn mor bwysig yn y ddadl rhwng yr alltudion a'r Protestaniaid yn Lloegr nes bod William Fulke wedi ysgrifennu llyfr arall, sef *Stapleton's Fortress Overthrown* (1580), yn ymateb iddo. Yn yr un modd, gwelir bod ei effaith wedi bod yr un mor ddylanwadol ar Gwyn, oherwydd iddo fenthg cymaint o dechnegau dadlau, methodoleg ac *exempla* ohono, ac yn wir mewn rhai achosion, iddo ailgylchu darnau hir ohono yn ei lyfr ei hun.

Dechreuwn gyda'r technegau a'r arddull sydd o dan ddylanwad Stapleton. Y dechneg fwyaf amlwg a fabwysiadodd Gwyn ganddo efallai yw'r ffordd y cymer ddyfyniadau o waith y Tadau Eglwysig yn ymryson gyda rhyw sect hereticaidd o'r gorffennol, a'u troi yn erbyn y Protestaniaid gan newid enw'r sect i 'Gwŷr Newydd'. Gwelir yr un dechneg gan Stapleton yn fynych (Stapleton 1973: 26<sup>v</sup>-27, 50) ac fe'i defnyddia gyda'r un dyfyniadau o'r un Tadau ag y gwnâi Gwyn ar ei ôl. Cymharer fersiynau Stapleton a Gwyn o ddyfyniad Awstin yn sôn am natur fyd-eang yr Eglwys:

For otherwise if Scripture taught me a church of some certaine place, for example, of Geneua, of England, and of some part of Suicerland, then in that part only were the churche: then the Sacramentaries only were true ghospellers. Then Father Luther for all the prayse the english Apologie geueth him (calling him a most excellent man and geuen of God to lighten the worlde) is an outcast and none of the churche. If Scripture telleth vs it is at Wittenberg, at Lipsia, or at Magdeburge, then the Ciuill Lutherans have the church only: Caluin, Illyricus, Osiander and all their adherents are put beside the stoole. Iff scripture doth determin in the vpper Saxony, at Lubeck and Hamburg, then the Zelous Lutherans haue it only, and thoes ciuill felowes, that haue forsaken Luther in so many pointes, are vtterly destituted of the church (Stapleton 1973: 27).

Pe base'r Ysgythyrl Lan yn dangos yni'r Eglwys y bydde yn Genefa yn inig ag yn Lloyger, beth bynag ar y ddygasid allan o lyfre erill, ny bydde eglwys yny byd ond gyda'r Calvenistied. Pei base'r Ysgythyrl Lan yn dangos y bydde'r Eglwys yn Wittenberg, Lipsia, ne Magdebwrg, fo fase rhaid myned y'w cheisio at y Melanthonied. Pei base'r Ysgythyrl Lan yn dangos yn inig yn Ffrissia yr Osiandried a'i salensiasen yr Eglwys, ag o does yno rhai erill y mysc yr rheini y base raid chwilio am yr Eglwys, ond pwy all gyfri holl opinione pob gwlad o'r neilldu (3050-58)

Gellir gweld bod y ddau ddyfyniad yn debyg iawn i'w gilydd, ond nad gwir gyfieithiad mo fersiwn Gwyn, eithr addasiad. Y mae ei ddyfyniadau o'r Tadau a'r Beibl yn tueddu i fod yn gyfieithiadau eithaf llac;<sup>15</sup> y mae'n debyg yn achos y dyfyniadau Beiblaidd bod hyn yn deillio o'r ffaith nad oedd cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl cyflawn ar gael, na chyfieithiad Cymraeg awdurdodedig Catholig o unrhyw ran ohono.

Y mae'n debyg hefyd mai yn llyfr Stapleton y cafodd Gwyn batrwm ar gyfer ei fethodoleg ei hun wrth lunio'r testun. Yr oedd defnyddio tystiolaeth ffynonellau patrystaidd a'r Beibl i brofi dilysrwydd Catholigiaeth yn rhan o'r her a roddodd Jewel i'r alltudion,

... o doedd vn nag arall o'r hen ffordd alle ddangos vn rheswm, vn gair, ne vn tittyl mewn llyfyr nag ysgrifen o fiawn y .6.c. kyntaf o flynyddoedd ar ol Crist, os galle vn o'r hen ffordd ddangos yddo vn gair o vn o'r doctoried o'r amser hwnw ef yn gwit addefe y fod ef dros y ffordd ag y fydde o'r hen ffydd. (2021–6).

ac felly dyma Stapleton yn ymateb i'r bregeth yn ei lyfr yn yr union dermau hynny. Defnyddia'r ddwy ffynhonnell hyn yn yr un modd ag a wna Gwyn, sef esbonio'r pwnc dan sylw, rhoi dyfyniadau Beiblaidd a phatrystaidd i ddangos barn Crist, neu'r Apostolion, neu'r Tadau arno, ac yna dehongli'r farn honno a'i chyd-destunoli ym mywyd y darllenwyr. Er i Gwyn, ac yn wir Stapleton, ddefnyddio dyfyniadau o lawer iawn o'r Tadau gwahanol, yr awdur Cristnogol cynnar y gwnaethant ill dau y defnydd helaethaf o'i weithiau niferus oedd Awstin. Mae dau reswm am hyn. Y rheswm cyntaf a'r mwyaf syml oedd lle Awstin fel un o awduron pwysicaf Cristnogaeth, a'r ail oedd oherwydd i'r Diwygwyr sylfaenu gymaint o'u dysgeidiaeth ar iachawdwriaeth a chyfiawnhad ar ei feddyliau ef ar y pwnc (McGrath 1993: 13–14, 21). Fe'i defnyddiwyd hefyd gan y Protestaniaid er mwyn amddiffyn eu syniadau rhag yr awgrym eu bod wedi dod ag unrhyw beth newydd i mewn i Gristnogaeth, fel yr haerau'r Catholigion (Cameron 2012: 166). Rhaid, felly, oedd profi mai ar ochr Gatholig y ddadl y safai Awstin, a dyna paham y mae Gwyn yn ei ddyfynnu 136 o weithiau, cymaint o ddyfyniadau ag sydd ganddo o'r Tadau eraill i gyd (Bowen 1978: 194). Hwyluswyd y gwaith hwn gan y ffaith fod golygiadau newydd Amberbach ac Erasmws (1506) o waith y Tadau wedi sicrhau bod y testunau llawn i'w cael yn hawdd am y tro cyntaf (McGrath 1993: 57–8). Golygiadau Lladin oedd y rhain, wrth gwrs, ac felly'n anghyraeddadwy i'r sawl na fedrai'r iaith, ond y mae'n anodd meddwl na fyddent wedi bod ar gael yn llyfrgell Douai.

---

<sup>15</sup> Tynnir sylw at enghreifftiau o hyn yn nifer o'r ôl-nodiadau.

Dilyna Gwyn drywydd ei athro mewn modd arall hefyd, sef dyfynnu o waith rhai o'r Diwygwyr cyfandirol a Seisnig. Gwneir hyn er mwyn tanseilio dadleuon y Diwygwyr trwy ddangos nad oeddent yn gytûn â'i gilydd ynghylch materion crefydd, a bod eu dysgeidiaeth yn mynd yn groes i'r hyn a ddysgai Crist a'r Apostolion yn yr Efengylau:

Ond merkiwch yn y geirie ola fel y may'r knaf yn kam henwi geirie Crist y geisio o'r tu arall bryfio fod ynyr aberth fara a chig, o blegid yn llyn y may ef yn gosod geirie Crist .X. Cymerwch fara a byttewch dymma fynghorff i .X. Ny ddwad Crist mo'r geirie yma er ioed ond yn llyn .X. Kymerwch chi hwn dyma fynghorff i [.X.] Ny alwodd Crist ddim o hano yn fara, ond ny ellir osyweith goel yr vn o honyn hwy a newidian yr holl Sgythyr Lan ne hwy a'i gwadan os bydd yn y herbyn hwy. (5298-305).

Dengys y dyfyniad uchod sut yr aeth Gwyn ati i ddefnyddio ffynonellau Protestannaidd yn erbyn eu hawduron, a chawn flas ar yr un dechneg gan Stapleton yn y dyfyniad canlynol:

Yet we must determine that there hath ben no time sence the creation of the worlde wherein the Lorde hath not had his church, and that there shall also be no time to the very ende of the worlde, wherein he shall not haue it' (Calvin 2008: 691). And this he proueth out of the psalmes and the prophets. What then trow we? If papistry hath lacked both the markes of the churche, and yet the Church hath neuer failed, no not in these later ages neither, what Churche hathe Christe had in these later ages? The very same whiche protestantes pretend nowe to haue? (Stapleton 1973: 29<sup>v</sup>).

Cyfeiria Gwyn at *The Sacrament of the Body and Blood - Against the Fanatics*, un o lyfrau Luther, lle dywed Luther fod ei ddisgyblion yn anghytuno ag ef ynghylch y Cymun mewn saith ffordd wahanol, a chymharu hyn gyda'r undod Catholig ar y pwnc (5448–64). Bu'r anghytundeb hwn rhwng y Protestaniaid ar faterion sylfaenol Cristnogaeth yn thema barhaus yng ngwaith y Diwygwyr cyfandirol (McCulloch 2001: 13). Bu hyn yn rhwystr mawr yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig wrth iddynt geisio sefydlu Eglwys newydd, a dadlau yn effeithiol yn erbyn y Catholigion a ddywedai na allai'r Protestaniaid fod yn wir Eglwys, oherwydd eu diffyg undod (McCulloch 2001: 65). Dyna paham y pwysleisia Gwyn anghytundeb y Protestaniaid cyfandirol â'i gilydd, a phwysleisio ar yr un pryd y ffordd yr anghytuned â diwinyddiaeth Eglwys Loegr, gan ddyfynnu llyfr Calfin ar y proffwyd Amos i ddangos ei farn ar yr Oruchafiaeth Frenhinol, hynny yw, y dylai'r brenin, ac nid y pab, fod yn ben ar yr Eglwys yn Lloegr, sef mai 'gormodd yn wir oedd hyn' (Calvin 1846: 349).

Y mae Gwyn hefyd yn defnyddio *A Fortresse of the Faith* fel cyfeirlyfr o *exempla* er mwyn cryfhau effaith ei ddadleuon ar y darllenwyr. Yr enghraifft fwyaf amlwg o hyn a geir yn y testun yw'r straeon am ffug-wyrthiau Lwther a Chalfin, a gafodd Gwyn yn uniongyrchol

o lyfr Stapleton, ac a gymerodd yntau o lyfr Fredericus Staphylus, *Absolyta Responio D Frederici Staphyli, in Defensionem Apologiae svae* (Cologne 1562) (Stapleton 1973: 98<sup>v</sup>). Fe'u defnyddir er mwyn profi na allai Lwther na Chalfin fod yn ailsefydlu'r wir Eglwys oherwydd na fedrent gyflawni gwyrthiau. Cymherir hyn gyda llu o wyrthiau a gyflawnwyd gan aelodau o'r Eglwys Gatholig er mwyn atgyfnerthu'r pwynt.

Yn ogystal â chyfeirio at yr un ffynonellau â Stapleton, y mae Gwyn hefyd yn dadlau'r un pwyntiau ag ef wrth lunio ei ddadl ehangach. Er enghraifft, wrth drafod yr angen i'r wir Eglwys fod yn weladwy ac yn hysbys yn y byd, y maent ill dau yn dweud y dylai hi fod megis ar ben bryn yng ngolwg pawb, a dyfynnu o'r un salmau i brofi hyn (2994–6).

Y mae dyled Gwyn i lyfr Bristow yn weddol debyg i'w ddyled i waith Stapleton, sef ei fod yn ailgylchu deunydd o lyfr Bristow *A briefe treatise of diuerse plaine and sure wayes to finde out the truthe in this doubtful and dangerous time of heresie conteyning sundry worthy motiues vnto the Catholike Faith* (Antwerp 1574), yn defnyddio'r un fethodoleg ac yn dadlau'r un pwyntiau.

Y mae Gwyn yn benthyc darnau hir o waith Bristow yn yr un modd ag a wna â llyfrau Stapleton. Yn achos gwaith Bristow, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn *exempla* cyfoes i ehangu apêl dadl Gwyn ac i ddangos bod gwyrthiau a gweledigaethau yn dal i ddigwydd yn yr Eglwys Gatholig, a bod hyn oll wedi cael ei rag-weld yn yr Ysgrythurau. Yn ôl Alexandra Walsham, er bod Stapleton yn dadlau bod gwyrthiau yn angenrheidiol wrth blannu Cristnogaeth, a diffyg gallu'r Diwygwyr i'w cyflawni yn brawf o wryni eu crefydd, ofnai ddweud bod gwyrthiau yn parhau yn yr Eglwys Gatholig yn ei amser ef. O gymharu â hyn, yr oedd Bristow yn ei lyfr a gyhoeddwyd ddegawd yn ddiweddarach yn llawer parotach i weld llinell ddi-dor o wyrthiau yn ymestyn o ddyddiau Crist hyd at y presennol (Walsham 2014: 138). Y mae'n debyg, felly, mai trywydd Bristow yn hytrach na thrywydd Stapleton y mae Gwyn yn ei ddilyn yn *Na all fod un Ffydd*, o ystyried yr *exempla* y mae'n eu dyfynnu a'r pwyslais a roir ar wyrthiau. Dywed Walsham i'r Gwrthddiwygwyr wneud ymdrech fawr i gyhoeddi newyddion am wyrthiau cyfandirol neu Seisnig cyfoes a'u hanfon i Loegr, fel y gwnaeth Bristow yn achos iachâd Margaret Jessop (Walsham 2014: 140). Gwelir bod Gwyn yn dilyn yr un arfer trwy gyfieithu'r stori hon, a straeon y ci du (4297–303), a'r dwylo yn llosgi llyfrau Protestannaidd (4285–96) i'r Gymraeg.

Adleisia Bristow rai o'r pwyntiau y mae Stapleton yn eu gwneud wrth ddadlau, fel anghysondeb y Protestaniaid, ond gwna bwyntiau eraill nas crybwyllir mohonynt gan Stapleton, sef dadlau ynghylch priod le'r llyfrau dewtero-ganonaidd yn y Beibl (Bristow 1574: 123<sup>v</sup>–124), a mynnu bod honiadau'r Anglicaniaid ynghylch yr Oruchafiaeth Frenhinol



yn golygu na allai Crist fod yn ben ar yr Eglwys oherwydd na chafodd ei eni i deulu brenhinol Lloegr (Bristow 1574: 157v), y mae Gwyn hefyd yn eu cynnwys yn ei lyfr yntau. Yn yr un modd, diawlia Bristow (Bristow 1574: 136v–138v) a Gwyn (9074–122) yr offeiriaid Mariaidd, sef y rhai a gafodd eu hurddo yn ystod teyrnasiad Mari, a oedd wedi cydymffurfio i'r graddau eu bod yn fodlon gweini'r Offeren a'r gwasanaeth Protestannaidd ill dau. Bu hyn yn thema gyson yng ngwaith cenhadon Douai wrth iddynt geisio symud y gymuned Gatholig yng Nghymru a Lloegr yn nes at arferion Tridentaidd eu cyd-grefyddwyr cyfandirol (Walsham 1999: 9).

Y mae Bristow hefyd yn defnyddio'r dechneg o droi geiriau'r Protestaniaid yn eu herbyn, gan amlygu'r farn wahanol a oedd gan y Diwygwyr. Dyfynna o'r Tadau a'r Beibl i gefnogi ei ddadleuon hefyd, a gellir gweld bod Gwyn yn cymryd rhai o'i ffynonellau a'i ddadleuon gan Bristow, gan iddo ddyfynnu'r un darnau Beiblaidd ag ef wrth drafod gweledigaethau, a defnyddio'r un enghreifftiau o lyfrau'r Tadau (Bristow 1574: 33<sup>v</sup>–34).

Golyga dylanwad Stapleton a Bristow, a'r dyfyniadau niferus o'r Beibl ac o destunau patrystaidd, fod lle i gwestiynu ynghylch i ba raddau y gellir ystyried *Na all fod vn Ffydd onyd yr Hen Ffydd* yn destun gwreiddiol o waith Gwyn neu'n addasiad Cymraeg o destunau eraill. Â dweud y gwir, y mae'r testun yn syrthio rhwng ddwy stôl yn hynny o beth. Y mae'r pennawdau cyntaf hyd y bumed i gyd yn waith gwreiddiol Gwyn, a cheir ynddynt nifer gymharol fach o ddyfyniadau. Ceir ychydig mwy yn ei ragymadrodd, ond eto y mae'r rhan fwyaf o eiddo Gwyn ei hun. I'r gwrthwyneb, ymddengys gweddill y testun, sef y rhan helaethaf o lawer ohono, yn debycach o lawer i fod yn addasiad, o ystyried nifer a helaethdra y dyfyniadau, a'r ffaith i Gwyn godi darnau hir o'r testun o waith Stapleton a Bristow. Byddai hyn yn cyd-fynd gyda sylw Gwyn na chafodd ond mis i ysgrifennu'r testun (5). Y mae'n debyg felly, y dylid ystyried y testun yn addasiad â darnau gwreiddiol sylweddol o waith.

#### *Y Copïwr*

Ganed Wiliam Dafydd Llywelyn, yn ôl ei dystiolaeth ei hun (9095–6), yn y flwyddyn 1526. Yr oedd yn enedigol o blwyf Eglwys Iâl yn Llangynidr, Sir Frycheiniog, ac fe ddaliai dir yno o'r enw *Guirglod Coley* (Gweirglodd Golau?) (Cofnodion Maenrol Badminton: 2v). Yr oedd yn feddyg wrth ei alwedigaeth, fel y gwelir o'r ffaith mai testunau meddygol yw rhai o'r testunau a gopiwyd ganddo, a'r nodiadau a ysgrifennai ar ymyl eu tudalennau, sydd yn awgrymu mai at ei ddefnydd ei hun y copïai hwy. Crybwyllir er enghraifft, iddo brynu

ychydig o olew a pherlysiâu er mwyn dilyn y cyfarwyddiadau yn un o'r testunau (Huws 2000: 25). Y mae'n debyg y byddai ei swyddogaeth fel meddyg wedi rhoi cyfle iddo grwydro ar draws Cymru, gan adael iddo ddsbarthu ei gopiâu o lyfrau reciwsantaidd; dywed Alison Shell, er enghraifft, fod llyfrau, lluniau a chreiriau Catholig yn cael eu symud yn ddirgel o gwmpas y wlad gan dinceriaid (Shell 2007: 17). Cysylltir y deunydd mewn dwy o'i lawysgrifau, LIGC 13116 a Peniarth 147, â'r gogledd-ddwyrain, er enghraifft. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bendant i Llywelyn ei hun ddsbarthu'r testunau.

Gwyddom na ddechreuodd gopïo llawysgrifau nes ei fod dros ei ddeugain oed, oherwydd gellir dyddio cyfansoddiad ei lawysgrif gynharaf, Peniarth 147, i'r blynyddoedd 1566–1571.<sup>16</sup> Copïodd nifer o destunau meddygol, gan gynnwys Peniarth 147, BL Add. 15078, sef copi o gyfieithiad Siôn ab Ifan o *The Treasury of Health*, sy'n gyfieithiad o'r Lladin gan Humphrey Llwyd, LIGC 5280 sy'n cynnwys cyfieithiadau o'r testunau Saesneg *Of the wood called Guaicum that healeth the French Pockes* (1536), a'r *Boke of Husbandry* (1534) gan Syr Anthony Fitzherbert.

Yn ogystal â'i ddi-ddordeb mewn meddyginiaeth, yr oedd hefyd yn ŵr llengar a cherddgar. Copïai destunau llenyddol, fel LIGC 17116, sy'n gasgliad o farddoniaeth, a Llanstephan 24, sy'n cynnwys y testunau canoloesol *Historia Judas*, *Trioedd Taliesin* a *Purdan Padrig* ymysg pethau eraill (Huws 2000: 24). Copïodd LIGC 13250, llawysgrif gymysg sydd yn cynnwys englynion, carol i Fair, herodraeth, achau a chyfieithiad Cymraeg o'r hanes eglwysig ar gân a wnaeth y Sais, George Marshall, sydd wedi'i chopïo gan law arall, ond a gywirwyd gan Llywelyn.

Y mae'n debyg, o ystyried ei oed, a cheidwadaeth grefyddol ei ardal enedigol, fod Llywelyn wedi bod yn Gatholig ar hyd ei oes, ond ni throdd at gynhyrchu llyfrau Catholig tan ar ôl 1581 (Huws 2000: 26), pan godwyd y dirwyon a osodid ar reciwsantiaid gan y Ddeddf yn erbyn Cymodiad i Rufain. Yn wyneb yr anawsterau a dyfodd yn sgil y Ddeddf, gwnaeth Llywelyn gopiâu o nifer o destunau crefyddol. Copïodd Llsg. Dinas Abertawe A.1.57., sy'n cynnwys *Y Processiwn Euraid*, sef cyfarwyddyd ar gyfer yr offeren, y saith salm ynghylch edifeirwch, *Gweddi Ddarogan Taliesin*, *Pregeth Ddarogan Dewi Sant*, a rhan o gyfieithiad Gwyn o'r *Manuall or Meditassiwn* gan Persons. Gwnaeth gopi arall o'r *Meditassiwn*, sef Llanstephan 13, ac felly gellir tybio ei fod yn cynhyrchu sawl copi o destunau reciwsantaidd. Yn 1604 copiodd y *Lanter Gristnogawl*, sef teitl Llywelyn ar y llawysgrif gyfansawdd a wnaeth o *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* a *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*. Y mae'n

---

<sup>16</sup> Cynhwysa restr o golegau Prifysgol Gaer-grawnt, heb enwi Coleg Emmanuel a sefydlwyd yn 1571.

debyg nad dyna oedd y copi cyntaf a wnaeth o'r testunau hynny ychwaith, ac felly nad at ei ddefnydd ei hun y gwnaeth, oherwydd iddo ddweud yn ei goloffon i'r llawysgrif 'nad er fu mwyn fu hynan ysgrif<sup>9095</sup> enes i hyn o lyfyr, ond er mwyn y rhai a fydde ar f'ol i' (9094-5). Copiodd gyfieithiad Cymraeg Wiliam Middleton o'r salmau, sef LIGC 471 yn 1606. Ni wyddys pryd yn union y bu farw, ond o ystyried ei fod yn bedwar ugain oed y flwyddyn honno, y mae'n rhaid na fu fyw yn hir ar ôl hynny. Yn sicr, dyna yw'r llawysgrif olaf o'i eiddo i oroesi.

### *Y Llawysgrif*

Y mae LIGC 15542B yn llawysgrif gyfansawdd sydd yn cynnwys dau destun, sef *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* a *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*. Y mae'r testun cyntaf ar dudalennau 1r hyd at 61r, ac ymestyn yr ail o dudalen 61<sup>v</sup> hyd at 312<sup>v</sup>. Rhennir y testunau yn benodau, ac amgaeir teitl pob pennod mewn blwch addurnedig. Dechreuir y penodau gyda phrif lythyren addurniedig hefyd, sydd fel arfer wedi'i phlethu gyda geiriau o'r *Ave Maria*, fel yn achos y rhagymadrodd, penodau 1–3, a 6–15. Ni cheir ond prif lythyren fawr yn achos y penodau eraill, ond ceir prif lythyren addurnedig heb *Ave Maria* ar ddechrau tudalen 62<sup>v</sup>. Amgaeir rhai geiriau yng nghorff y testun mewn blwch er mwyn eu hamlygu, ac ysgrifennir rhai geiriau yn fwy na'i gilydd, ac mewn inc tywyllach na'r arfer i'r un pwrpas. Darlunnir llaw ar ymyl y ddalen yn pwyntio at ddechrau rhai paragraffau, unwaith eto er mwyn eu hamlygu, ond fe'u ceir ar yr ochr *verso* yn unig fel arfer. Ceir nodiadau ar ymyl ochrau *recto* a *verso* y dudalen, sydd naill ai yn tynnu sylw'r darllenwr at yr hyn a ddywedir mewn paragraff, neu yn ei grynhoi. Anodd yw dyfalu pa un ai *marginalia* Gwyn ynteu Llywelyn yw'r rhan fwyaf ohonynt, ond mae'n bur debyg mai gwaith Llywelyn yw rhai ohonynt, gan eu bod yn ymateb yn uniongyrchol i'r hyn a ddywedir yn y testun.

Cymraeg yw prif iaith y llawysgrif, ond y mae un eitem Saesneg ar ff. iii<sup>r</sup>–vi<sup>r</sup>, yn llaw Llywelyn, sef disgrifiad o amser sy'n tynnu ar waith Justin Ferthyr. Y mae'r cynnwys i gyd yn llaw Llywelyn, ac eithrio rhai nodiadau ar ymyl tudalen sydd yn llaw Gregory Powell. Ac eithrio un achos yng nghanol *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd* (LIGC 15542B: 243<sup>v</sup>), ni cheir mohonynt hwythau ond ar ddechrau a diwedd y llawysgrif, sef ar y dudalennau yr ymddengys eu bod yn ffurfio hen glawr y llawysgrif (LIGC 15542B: i<sup>r-v</sup>, 313<sup>r-v</sup>). Ailrwymwyd y llawysgrif mewn clawr caled yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Y mae *Na all fod un Ffydd onyd yr Hen Ffydd*, felly, yn destun diddorol iawn i'w ddarllen. Y mae'r unig gopi ohono sydd wedi goroesi'n hebrid, gan i Llywelyn addasu'r iaith

rhyw dipyn ar gyfer cynulleidfa Ddeheuol,<sup>17</sup> a saif mewn lle pwysig iawn ymhlith testunau Cymraeg cyfoes oherwydd dibyniaeth yr awdur ar ffynonellau a phatrymau Saesneg, yn hytrach na rhai Cymraeg. Ymdebyga yn hynny o beth i rai o weithiau Salesbury, gan roi inni enghraifft Gatholig o awdur y bu'r dylanwad Seisnig yn drymach o lawer ar ei waith na'r dylanwad Cymreig.

### *Iaith y Testun*

#### *Tafodiaith*

Fel brodor o Lŷn, ac un na châi lawer o gyfle i ymarfer ei Gymraeg ysgrifenedig, ysgrifennai Robert Gwyn heb fawr o ymgais i ddefnyddio iaith ysgolheigaidd. Dywed Gwyn ei fod 'heb fedry onyd yn bring ymodi mo'm tafod nag y ddywedyd y Gymraeg fel y dylwn, na chwaith yn medry ysgrifeny yn gywir gimint ag y fedra y dywedyd' (41–3). Yr oedd honiadau o'r math hwn yn ddyfais rethregol a oedd yn gyffredin ymysg awduron Catholig a Phrotestannaidd o'r cyfnod,<sup>18</sup> felly ni ellir bod yn sicr i ba raddau y mae Gwyn yn dweud y gwir yma. Prif nod awduron ysgol Douai oedd perswadio pobl i dderbyn eu dadleuon,<sup>19</sup> ac yr oedd defnyddio iaith arferol eu darllenwyr (Bowen 1999: 31–2), a'r bobl anlythrennog y darllenid y llyfrau iddynt, yn ffordd dda o wneud hyn, gan siarad â'r bobl nid yn unig yn eu hiaith eu hunain, ond ar ffurf hawdd ei deall (Bowen 1970b: 122), arfer ddyneiddiol yr oedd y Diwygwyr wedi ei mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal â'r angen i'w waith gyrraedd ei ddarllenwyr yn y modd mwyaf dealladwy posibl, y mae'n rhaid inni gofio, fel y dywed Gwyn ei hun yn ei ragymadrodd,<sup>20</sup> ei fod wedi bod heb unrhyw lyfr Cymraeg i'w ddarllen am flynyddoedd, na hyd yn oed unrhyw un y gallai siarad yr iaith ag ef, a'i fod yn poeni y byddai hyn yn amharu ar ei allu i ysgrifennu Cymraeg da. Yn anffodus, nid yw'r llawysgrif wreiddiol wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn, felly yr ydym yn ddibynnol ar y copi a wnaethpwyd gan William Dafydd Llywelyn.

Nid copïo'r llawysgrif air am air oedd unig ofal Llywelyn, ond hefyd ei haddasu ar gyfer cynulleidfa yn y De-ddwyrain.<sup>21</sup> Yr oedd y gwahaniaethau tafodieithol rhwng Gwynedd

<sup>17</sup> Trafodir hyn yn fanwl yn y bennod nesaf.

<sup>18</sup> gw. er enghraifft (Hughes 1971: 91)

<sup>19</sup> gw. (Bowen 1970b: 118), (Fathers 1882: 61–5).

<sup>20</sup> '...na Ryfeddedd fod kimint o feie, am na welais lyfyr Kymraeg eres dalm, ag ny does geni chwaith vn cydymaith y siarad...' (2–5)

<sup>21</sup> O dan nawdd uchelwyr Catholig fel Edward Somerset, Iarll Caerwrangon ac Arglwydd Rhaglan (1553–1628) a Syr Edward Stradling o Sain Dunwyd (1529–1609), bu Siroedd Mynwy, Morgannwg a'r ardaloedd cyfagos yn ardaloedd reciwsantaidd cryf o ddyddiau Elisabeth hyd at y ddeunawfed ganrif. Gw. Hannah Thomas, 'Missioners on the Margins? The Territorial Headquarters of the Welsh Jesuit College of St Francis Xavier at the Cwm, C. 1600–1679', *Recusant History*, 32, (2015), 173–93. Yn wir, dyma oedd un o'r ardaloedd lle bu'r

a Gwent yr un mor sylweddol ag y maent heddiw, os nad yn fwy felly,<sup>22</sup> ac felly y mae dylanwad y copiwr i'w weld yn amlwg yn y llawysgrif. Er hynny, erys nifer o enghreifftiau o dafodiaith Gwyn yn y testun, sydd yn gwneud y llawysgrif yn gymysgfa ddiddorol o ddwy dafodiaith dra gwahanol i'w gilydd.

### *Sain ac Orgraff*

Wrth drafod yr orgraff mae'n rhaid pwysleisio mai orgraff Wiliam Dafydd Llywelyn y sonnir amdani, ac nid orgraff wreiddiol Gwyn.

#### *Llafariaid*

<a> (1) /a/ e.e. *falch* (20), *dynabod* (12), *Ragor* (13).

(2) /a:/ e.e. *a diwiol air* (18-19) *dda* (169), *Lan* (13), *parha* (2138).<sup>23</sup>

<e> (1) /ɛ/ e.e. *ddalen* (32), *geni* (4), *alle* (38), *drychefen* (253),<sup>24</sup> *kenol* (4165).<sup>25</sup>

(2) /ɛ:/ e.e. *hen* (62), *er* (1).

<o> (1) /ɔ/ e.e. *ffordd* (18), *ysgaylyso* (69), *Gatholic* (29).

(2) /ɔ:/ e.e. *o* (2), *o'r* (9), *bod* (39).

(3) /a/ e.e. *or* (8799).

<u> (1) /ü/ e.e. *un* (4), *tu* (37),

(2) /ü:/ e.e. *dysgu* (18), *Iessu* (19), *hunan* (35).

(3) /u/ e.e. *Ecclesiasticus* (25), *Exodus* (6933).

(4) /u:/ e.e. *Luk* (3719), *Luther* (2006).<sup>26</sup>

<w> (1) /u/ e.e. *wnaeth* (8), *mwnws* (146), *gwr* (18), *wrth* (71).

(2) /u:/ e.e. *drws* (51)

<i> (1) /i/ e.e. *kimint* (2),<sup>27</sup> *dim* (11), *schismes* (26-7), *Gatholic* (29).

---

Hen Ffydd ar ei chryfaf hyd yn oed yn amser Gwyn, a gwyddom iddo dreulio llawer o amser yn y De-ddwyrain yn gwasanaethu anghenion y gymuned Gatholig yno. (*Gw.* tt. vii–viii).

<sup>22</sup> Er enghraifft yr ymgais a wnaeth Gwyn yn *Y Drych Kristnogawl* i baru geiriau gogleddol a deheuol 'i gael o bawb o'r ddwy wlad ddyallt' (Gwyn 1996: xxvii–viii, 8). Cofier hefyd sylw William Salesbury fod Thomas Huet wedi cyfieithu Llyfr y Datguddiad i'w dafodiaith leol (White 2007: 27).

<sup>23</sup> Sylwir nad yw Llywelyn yn defnyddio marciau diacritig i ddynodi hyd llafariaid.

<sup>24</sup> Gwelir y tueddiad yn nhafodieithoedd y De i osod /e/ rhwng /v/ ac /n/ derfynol mewn rhai manau yn y testun, e.e. drachefn > *drychefen* (253), chefn > *chefen* (739). Sylwer bod y llafariad epenthetig yn atsain y llafariad a ddaeth o'i flaen. Ceir yr un peth yn digwydd gydag /a/ e.e. ofn > *ofan* (601) ac /u/ e.e. ymhlith > *ym hylith* (107), sydd yn nodweddiadol o dafodieithoedd y De-ddwyrain, (Thomas a Thomas 1989: 44), a chyda /i/ hefyd, e.e. ofn > *ofyn* (148).

<sup>25</sup> Ceir /e/ am /a/ yn sill gyntaf rhai geiriau, e.e. pan > *pen* (65), canolwr > *kenolwr* (971). Ceir yr un tueddiad yng Nghymraeg y De-Ddwyrain (Thomas 1975: 350).

<sup>26</sup> Noder na cheir mo'r ynganiad hwn ond yn achos enwau fel hyn.

(2) /i:/ e.e. *geni* (4), *gid* (6), *mis* (5), *mi* (8).

(3) /y/ e.e. *er ioed* (226).

<y> (1) /i/ e.e. *lyfyr* (4), *nyd* (68), *Scythyr* (12), *ynghylch* (21), *ystyn* (271).

(2) /i:/ e.e. *y* (5), *ymi* (222), *medry* (42), *ysgrifeny* (8).

(3) /ə/ e.e. *fy*, (8) *Scythyr* (12), *tryblio* (21), *ymddiffyn* (29)<sup>28</sup>, *gwnythy* (89).<sup>29</sup>

(4) /ü/ e.e. *kytyno* (18).

### Deuseiniaid

<a><sup>e30</sup> (1) /ai/ e.e. *Kymraeg* (4),<sup>31</sup> *mae* (20), *cael* (66), *farolaeth* (168), *anwybodaeth* (24), *wnaeth* (8), *flaen*<sup>32</sup> (557).

(2) /ei/ e.e. *weledigaethe* (397), *haylaethed* (913).<sup>33</sup>

<ai> (1) /ai/ e.e. *rhaid* (57), *wraig* (183), *gair* (23), *rhain* (618).<sup>34</sup>

<ay> (1) /ai/ e.e. *dayth*<sup>35</sup> (245), *may*<sup>36</sup> (7), *bay* (417), *dday* (144).

(2) /ei/ e.e. *ysgaylyso* (69), *gweledigaythe* (233), *gayad* (722).

<au> (1) /ai/ e.e. *bethau*<sup>37</sup> (70), *haul* (576), *aur* (612), *ddau* (949).

---

<sup>27</sup> Arfer Llywelyn yw ysgrifennu 'cymaint' fel *cymint*, gan newid y llafariad derfynol yn unsain, er iddo ysgrifennu *gymaint* ddwywaith, (1000, 1096). Y mae'n bosibl, felly, bod *cymaint* yn cynrychioli ieithwedd wreiddiol Gwyn, ac addasiad gan Llywelyn yw *cymint*, ond dylid cofio bod *cymint* ar lafar yn Llŷn hefyd.

<sup>28</sup> Ysgrifennir y lle disgwyliid *a* mewn ambell i air, e.e. *ymddiffyn* (29), *fyrfoleath* (241), *myrchogaeth* (292), *Gytholig* (2473), *pyrhau* (2487). Ceir yr un tueddiad gydag *e* hefyd, e.e. *yml* > *emyl* (7947). Cafwyd y ffenomenon hon mewn Cymraeg Canol, o bosibl oherwydd cymysgedd rhwng sain *e* ac *y* (Evans 1994: 1), a diau bod yr un peth yn digwydd yn yr achos hwn gydag <a>.

<sup>29</sup> Ceir y newidiad nodweddiadol deheuol (Thomas 1975: 345–66) /ei/ > /i:/ yn fynych yn y testun, e.e. *beiau* > *bie* (2), *lleuad* > *llyad* (576), *seibiant* > *sibiant* (290).

<sup>30</sup> Ceir *ae* yn amrywio gydag *e* yn fynych yn sill olaf geiriau, e.e. *gadel* (49), *heleth* (41), *natrieth* (619). Y mae'r tueddiad i ynganu /ai/ fel /e/ yn y safle hon yn gyffredin ar draws Cymru, ac eithrio yn Llŷn a'r ardaloedd cyfagos (Thomas a Thomas 1989: 41). Ceir un enghraifft o /a/ y Gogledd-orllewin yn y safle hon, sef *vrenhiniath* (2337). Wedi dweud hyn, ceir yr ynganiad hwn hyd heddiw mewn rhai manau yn y De-ddwyrain (Thomas a Thomas 1989: 41), felly gallai'r ffurf hon fod yn eiddo Llywelyn hefyd.

<sup>31</sup> Ni sillafir *Cymraeg* na ffurfiau treigledig y *gair* ond gydag <ae>; y mae'r un peth yn wir am y ffurf *cael* hefyd.

<sup>32</sup> Ni sillafir ffurfiau'r *gair* *blaen* ac eithrio gydag <ae>.

<sup>33</sup> Ceir y sillafiad hwn fel arfer mewn geiriau unsill ac yn sillaf olaf geiriau amsillafog.

<sup>34</sup> Nid ysgrifennwyd y geiriau hyn ond gydag <ai>. Mewn cyferbyniad, prin yr ysgrifennir y terfyniad amodol 3. un. gydag <-ai> o gwbl, eithr fel <-e> yn rheolaidd, e.e. *alle* (38), *ddywede* (221), *fydde* (275), *wmaythe* (225), *adwayne* (6704). Ceir ychydig enghreifftiau o <-ai>, e.e. *gadwai* (1319).

<sup>35</sup> Sylwer mai'r *gair* *dayth* yw'r unig enghraifft o ddefnyddio <ay> cyn <th>. Fel arall ceir <ae> yn rheolaidd.

<sup>36</sup> Ceir 182 enghraifft o *may* yn y testun o gymharu â 20 enghraifft o *mae*. Yn ôl Simon Evans, (Evans 1994: 3), <ay> sydd yn cynrychioli'r ffordd hynafol o ddynodi /ai/, felly y mae'n debyg mai dyna sydd yn esbonio amllder y ffurf hon. Gellir ystyried presenoldeb *mae* fel enghraifft o newyddbeth yn dod i mewn i ieithwedd Llywelyn.

<sup>37</sup> Enghraifft brin yw hon o'r terfyniad lluosog <-au> yn cael ei sillafu'n <-au>. Fe'i sillafir yn <-e> fel arfer, e.e. *Bie* (2), *feie* (2), *geirie* (12), *gwestione* (21), *dafode* (26), sydd yn awgrymu'r ynganiad /e/ a geir ar hyd a

<aw> (1) /au/ *miawn* (211), *Awstyn* (445), *llawer* (26).  
 <ei> (1) /ɛi/ e.e. *geirie* (12), *gweithio* (105), *eidolied* (6950).  
 (2) /ai/ e.e. *gobeith* (180), *geir* (1623), *gadeir* (4767).  
 <ey> (1) /ɛi/ e.e. *kythreylid* (207), *ney* (746), *dechreyad* (568),  
 (2) /ai/ e.e. *beiey* (10), *bethey* (74), *eiriey* (212), *geyff* (1137).<sup>38</sup>  
 <ew> (1) /eu/ e.e. *dewi* (144), *mewn*<sup>39</sup> (21), *ewch* (3710).  
 <oe><sup>40</sup> (1) /oi/ e.e. *does*<sup>41</sup> (4), *roes*<sup>42</sup> (112), *ydoedd* (91).  
 <oi> (1) /oi/ e.e. *rhot*<sup>43</sup> (52), *droi* (1079).  
 <oy> (1) /oi/ e.e. *doythym* (65), *Lloyger* (106), *roydden* (308).<sup>44</sup>  
 <ow> (1) /ou/ e.e. *glowed* (90), *fowyd* (1350), *dowyll* (1869).<sup>45</sup>  
 <yw> (1) /iu/ e.e. *byw* (145), *mywn* (78), *ddywie* (7122).  
 <uw> (1) /iu/ e.e. *rhuw* (878), *Luwk* (2463), *Duw*<sup>46</sup> (89).  
 <wy> (1) /ui/ e.e. *rhwymy* (2464), *cynllwyn* (2088), *dwyllo* (280).  
 (2) /wi/ e.e. *winwydden* (2581), *wybod* (20), *yfyngylwyr* (7053).

### Cytseiniaid

<b> (1) /b/ e.e. *bie* (2), *seibiant* (5), *ffyddlondeb* (5123).  
 <c> (1) /k/<sup>47</sup> e.e. *cydymaith* (4), *flottiedic*<sup>48</sup> (44), *cael* (66).  
 (2) /s/ e.e. *hordenance* (116).<sup>49</sup>  
 <ch> (1) /x/ e.e. *chwaith* (4),<sup>50</sup> *chefais* (5), *weloch* (10).

---

lled Cymru, yn y De, yn y Gogledd- ddwyrain ac ym Meirionnydd, ond nid yn Llŷn (Jones 2000: 8). (/təbətɛ/, /lɛkʃənɛ/)

<sup>38</sup> Defnyddir y sillafiad hwn ar gyfer /ai/ ar ddiwedd gair ac mewn geiriau unsill.

<sup>39</sup> Sillefir y gair hwn mewn pedair ffurf. Ceir 168 enghraifft o *mewn*, 189 o *mywn*, 31 o *miawn* ac un enghraifft o *miwn*. Dywedir mai 'miwn' (sef *miwn* a *mywn* Llywelyn), yw 'ffurf gyffredin y De', a cheir 'mewn, miewn a miawn' yn y Gogledd (Thomas a Thomas 1989: 145).

<sup>40</sup> Amrywir y ddeusain hon ag /ɛi/ yn weddol aml, e.e. *deuthum* > *doythym* (65).

<sup>41</sup> Ni ysgrifennir y gair hwn ond gydag *oe*.

<sup>42</sup> Ni cheir ond un enghraifft o *roys* yn y testun; fel arall ysgrifennir *roes* bob tro.

<sup>43</sup> Ysgrifennir y berfenw gydag *oi* bob tro, ond defnyddir *oy* ar gyfer ffurfiau eraill y ferf, e.e. *rhoyd* (375), *rhoysen* (650), *rhoyson* (1510).

<sup>44</sup> Er mai <oy> yw'r ffurf fwyaf cyffredin i gyfleu /oi/ mewn Cymraeg Canol, (Evans 1994: 3), ac er i Llywelyn ei ddefnyddio 687 o weithiau, <oe> yw'r ffurf a arferir. Fe'i defnyddir 2356 o weithiau, o gymharu â 327 enghraifft o <oi>.

<sup>45</sup> Defnyddiai'r gramadegydd Gruffydd Robert y ffurfiau hyn, (Roberts 1939: 58), felly y mae'n debyg eu bod yn cynrychioli ffurfiau llenyddol a arferid gan Llywelyn (Bowen 1997: 218).

<sup>46</sup> Anaml iawn y defnyddir y sillafiad hwn ac eithrio gyda'r gair 'Duw'. Arferir yw.

<sup>47</sup> Ar ddechrau gair cymysgir *c* a *k*. Yng nghanol gair ceir *k* yn rheolaidd.

<sup>48</sup> Amrywir -*c* a -*g* terfynol mewn llefydd lle disgwyldid sain /g/, e.e. *Gatholic* (29), *yhydic* (1349), *dysgedic* (38), *ddysc* (764). Sylwer bod hyn yn digwydd ar ôl /i/ neu /i:/.  
<sup>49</sup> Sylwer na cheir <c> am /s/ ond mewn gair benthyg fel hyn.

<sup>50</sup> Ceir /xw/ ar ddechrau gair ar ôl yr arfer gogleddol yn rheolaidd, ac yn achlysurol y ceir /hw/. (Gw. yr ôl-nodyn ar 642). Amrywir y ddwy sain hyn yn nhafodiaith Brycheiniog yn y safle dechreuol, (Jones 1985: 74),

(2) /k/ e.e. *schismes* (26-7).<sup>51</sup>  
 <d> (1)/d/ e.e. *pardyned* (1), *dalm* (4), *gid* (6).  
 <dd><sup>52</sup> (1) /ð/ e.e. *ddarlleno* (1), *ryfedded* (2), *dydd* (6).  
 (2) /ø/ e.e. *drydudd* (579), *trydudd* (656).<sup>53</sup>  
 <f> (1) /v/ e.e. *sgrifen*<sup>54</sup> (1), *feie* (2), *fariwns* (21).  
 (2) /ø/ e.e. *hyf* (176), *daf* (812), *holldaf* (3871).<sup>55</sup> Ar ddechrau gair ceir nifer o enghreifftiau o v, e.e. *Vair* (718).  
 (3) /f/ e.e. *Fabianus* (4968).<sup>56</sup>  
 <ff> (1) /f/ e.e. *ynddiffyn* (29), *wnaiiff* (139), *ffara* (537).<sup>57</sup>  
 <ng> (1) /ŋ/ e.e. *Angrist* (1528).<sup>58</sup>  
 <g> (1) /g/ e.e. *dolwg* (1), *ysgrifen* (2), *gwybyddwch* (7).  
 (2) /ŋ/ e.e. *efegylon* (4704).  
 <k> (1) /k/ e.e. *kimint*, (2), *bwnk* (490), *farkio* (640).  
 <ph> (1) /f/ e.e. *drapherth* (6-7), *fflant* (3006), *Daphne* (8381), *Damphe* (8391).<sup>59</sup>  
 <r> (1) /r/ e.e. *llyfr* (31), *erbyn* (23), *raid* (39).  
 (2) /r<sup>h</sup>/ e.e. *raid* (524), *rysymme* (4706), *Rai* (16).<sup>60</sup>  
 <rh> (1) /r<sup>h</sup>/ e.e. *rhaid* (57), *rhyw* (169), *rhyddid* (4872).  
 (2) /r/ e.e. *rhoyd* (374), *rhiolwyr* (4578), *rhyw* (2978).<sup>61</sup>  
 <t><sup>62</sup> (1) /t/ e.e. *attoch* (8), *tabernacle* (9673), *kimint* (2).

---

felly y mae'n debyg naill ai mai un arall o olion Gwyn yw'r arfer o ddefnyddio *ch*, neu ei fod yn cynrychioli ymgais gan Llywelyn i ddefnyddio sillafiad mwy safonol.

<sup>51</sup> Sylwer mai mewn gair benthg yn unig y ceir <ch> am /k/.

<sup>52</sup> Fe'i dynodir gan ð, sydd yn nodweddiadol o law Wiliam Dafydd Llywelyn. Ceir ambell enghraifft o *d*, ond y tebygrwydd yw mai camgymeriadau yn hytrach nag amrywiadau ffurf ydynt.

<sup>53</sup> Tueddir i ddileu *dd* ar ddiwedd gair yn achos y trefnolion, e.e. *drydu* (440), *pedwry* (405), felly y mae'n bosibl mai gorgywiriadau yw'r enghreifftiau a erys o *dd* terfynol yn yr achosion hyn.

<sup>54</sup> Dynodir y sain hon yng nghanol gair gan <f> yn rheolaidd.

<sup>55</sup> Y mae'n debyg fod y rheiny hefyd yn cynrychioli gorgywiriad gan Llywelyn, o ystyried tueddiad Cymraeg cyfoes i golli /v/ terfynol. Yn achos ffurfiau 3ydd. un. y berfau y mae'n debyg fod hyn yn digwydd o dan ddyllanwad y 1af. un.

<sup>56</sup> Noder mai dim ond yn achos enwau benthg y ceir <f> am /f/.

<sup>57</sup> Ysgrifennir *ff* yn rheolaidd i ddynodi ffurf dreigledig *p. cyf.* (Evans 1994: 8).

<sup>58</sup> Ceir y trwynolion di-lais yn ardaloedd Llanwrtyd a Godre'r Epynt pan fo'r gytsain ddi-lais yn gysefin, e.e. /p/ > /m/, /t/ > /n/, /k/ > /ŋ/ (Jones 2000: 76).

<sup>59</sup> Yr enghreifftiau a roddir yma yw'r unig enghreifftiau o <ph> a geir yn y testun. Fel y nodwyd uchod, <ff> yw'r sillafiad a arferir ar gyfer /f/.

<sup>60</sup> Defnyddir <R> yn achlysurol i ddynodi /r<sup>h</sup>/, ond fel arfer mae Llywelyn yn defnyddio llythyren arbennig ar gyfer y sain hon.

<sup>61</sup> Gwelir bod peth ansicrwydd weithiau pa sain yn union a ddynodir gan <rh> ac <r>. Mae dau eglurhad posibl am hyn: naill ai mai enghraifft o gamdreiglo sydd yma neu mai arfer y De-Ddwyrain o beidio ag anadlu <rh>, sy'n gyfrifol (Thomas 1975: 353).

<sup>62</sup> Ceir <t> rhynglafariadol mewn ambell le lle disgwyliid <d>, e.e. *godo* > *gotto* (6087), a *fedro* > *a fetro* (7224), a ddywedon > *a ddywetton* (4567). Un o nodweddiad amlycaf tafodiaith Gwent a Brycheiniog yw



<w> (1) /w/ e.e. *welais* (2), *wastod* (55), *llywenydd* (314).<sup>63</sup>

Cwtogir sillaf gyntaf rhai geiriau yn nhafodiaith Brycheiniog<sup>64</sup> (Jones a Jones 1996: 39), arfer a rennir gyda'r gogledd-orllewin, ac fe geir yr un tueddiad yn y testun hwn hefyd, e.e. *caledi* > *kledi* (229), *gywilydd* > *gwilydd* (24)

### *Ffuriant a Chystrawen*

#### *Nodiadau Cyffredinol*

*Y Cymal Perthynol.* Arferir y ffurf *ar* ar gyfer cyfleu'r cymal perthynol, ac fe'i defnyddir yn helaeth. e.e. *ar y sydd* (46), *ar y rydychi* (1967), *ar a feder* (7166). Bu'r ffurf hon yn gyffredin yn yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg (Evans 1994: 70), ac fe'i ceir yn y Beibl.

*Cystrawen y Cymal.* Dilynir yr arfer hynafol o roi'r goddrych cyn y ferf, e.e. *hwy a gaen* (1833), *chwi a gewch weled* (658). Ceir 324 enghraifft o'r arfer hon yn y testun.

#### *Rhediad y Ferf*

*Presennol Iaf. un.* Ceir <-a> yn rheolaidd, e.e. *mi a obitha* (6823), *ddyweda i* (47).

*Presennol 3ydd. un.* Lle gorffenna'r ffurf gyda llafariad, ychwanegir <-f> terfynol mewn rhai achosion, e.e. *yr ystynaf Eglwys y Gentiled drwy'r holl fyd* (2859-60), *holldaf ef y tafode* (3871).<sup>65</sup>

*Dyfodol 3ydd un.* -ff yw'r ffurf a arferir, e.e. *gofyniff* (539).

*Gorffennol Iaf. un.* Amrywir <-ais> e.e. *welais* (2), *chefais* (5), *ddechreyais* (1925), ac <-is>, e.e. *ysgrifennis* (8513), *gellis i* (1927).

---

caledu cytseiniaid rhynglafariadol, (Thomas 1973: 272). Rhoddir yr enghreifftiau /wetasd/ < wedaist; /dikon/ < digon.), fel y'u ceir yma.

<sup>63</sup> Y mae'n bosibl bod rhai enghreifftiau o *w* yng nghanol gair yn cynrychioli sain /v/, yn dilyn y newid dwywefusol a geir yn y geiriau anllywodraeth > *anllyfodreth* (4793) a marwolaeth > *marfolaeth* (193). Yr oedd y newid hwn yn rheolaidd yn y safle ganolig mewn Cymraeg Canol, yn enwedig mewn geiriau fel *cawod*, *cafod*; *cyfoeth*, *cywaeth*; *gorwedd*, *gorfedd* (Evans 1994: 10, Morris-Jones 1913: 28), ac y mae'n nodwedd gyffredin ar lafar o hyd. Ceir y newid hwn yn fynych yn y testun yn achos y ferf dyfod > *dwad* (96).

<sup>64</sup> Ceir y tueddiad hwn yn fwy aml yng ngorllewin y sir nag yn y dwyrain. e.e. *gw litho* > *glitho*,

<sup>65</sup> Ni ddigwydd yr ychwanegiad hwn ond yn achos berfau a derfyn gydag *a* yn achos y 3ydd un. presennol, ond fe'i ceir yn achlysurol yn y 3ydd un amherffaith. hefyd, e.e. *rhodief* (746).

*Gorffennol 3ydd. un.* <-odd> neu <-awdd> oedd terfyniad arferol Gwyn am y trydydd person unigol gorffennol fel y gwelir o edrych ar Llsg. Hafod 6, sydd yn llaw Gwyn ei hun.<sup>66</sup> Fel rhan o'r broses o gopïo llawysgrifau Gwyn newidiodd Llywelyn y terfyniad hwn yn -oedd trwy gydweddiad ag *ydoedd*, a dyna'r ffurf a geir fel arfer yn y testun. Eithr er gwaethaf ei ymdrechion, methodd â dal pob enghraifft o sillafiad gwreiddiol Gwyn. e.e. *ordiniodd* (785), *gasglodd* (863). Ceir ambell enghraifft o orgywiriadau gan Llywelyn hefyd, e.e. *wnathoedd* (549). Er mai -oedd, -odd, -awdd yw'r ffurf a arferir, ceir rhai enghreifftiau o'r terfyniad -s, e.e. *gafas* (323), *golles* (1039). Noda Glyn E. Jones bod yr amrywiad hwn yn nodweddiadol o Gymraeg Sir Frycheiniog, lle cymysgir -odd ac -ws hyd ei amser ef. Dywed fod -ws yn digwydd yn fwy mynych yng ngogledd y sir (Jones 2000: 85). Gallwn fod yn weddol sicr fod yr enghreifftiau o -s yn addasiadau gan Llywelyn, oherwydd i -odd ddisodli -ws yn y Gogledd-orllewin erbyn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn wir, nis ceid -ws ond yn y Ddeddwyrain o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen (Awbery et al 1985: 5). Ceir y gorffennol -t hefyd, (Evans 1994: 123) e.e. *kymmerth* (2340), sy'n debygol o fod yn ffurf lenyddol.<sup>67</sup>

*Gorffennol 3ydd. llu.* Nis ceir mo'r ffurf Ladiniaidd -nt, eithr y ffurf fwy llafar -n yn rheolaidd, e.e. *ddywedan* (27), er i ambell enghraifft o -t ymddangos yn ffurfiau 3ydd. Llu. yr arddodiaid. (Gw. isod).

*Gorffennol amhersonol.* -ed yw'r ffurf a arferir, e.e. *galwed* (1506).<sup>68</sup>

*Amherffaith 3ydd. un.* -e yw'r ffurf a geir, e.e. *gwedde* (7021), *ddywede* (221).

*Amherffaith 3ydd. llu.* Dilynir patrwm yr amser gorffennol, gan arfer y ffurf -en, e.e. *gwelen* (2625).

*Amherffaith amhersonol.* Arferir y ffurf -yd, e.e. *a wneyd* (3106).

*Y Berfenw.* Ceir y terfyniad -ied yn rheolaidd ar gyfer *tybio*, e.e. (47). Ceir un enghraifft ohono gyda *meddwl* hefyd, e.e. *fedlyied* (61).

### *Y Berfau Afreolaidd*

<sup>66</sup> Y mae astudiaeth gymharol o ieithwedd Gwyn ei hun yn Hafod 6, a'r hyn a geir yma y tu hwnt i ffiniau'r astudiaeth hon, sy'n canolbwyntio ar un testun, ond bwriadaf ymhelaethu ar yr agwedd hon wrth droi'r traethawd hwn yn gyfrol gyhoeddedig.

<sup>67</sup> Y berfau sydd yn gorffen gydag -s yn y gorffennol 3ydd. un. yw 'cael, codi, gosod, ymgyflogi, beichiogi, colli, danfon, torri' a 'siarad'. Yr unig ferf sydd yn dwyn y gorffennol -t yw 'cymryd'.

<sup>68</sup> Cymharer yr arfer hwn â'r tueddiad mewn Cymraeg Canol a Chymraeg Modern i ddefnyddio -wyd (Evans 1994: 114). Er hyn, defnyddiwyd -et, -it ar gyfer y berfau sydd yn cymryd -s yn y gorffennol 3ydd. un. (Evans 1994: 126). Ceir yr un defnydd o -ed gan Llywelyn Siôn yn ei gopi o'r *Gesta Romanorum*, e.e. *hi a ddoded yngharchar* (Williams 2000: 7).

*Gwneud.* Amrywir ffurfiau *gwneud* a *gwneuthur* y berfenw drwy'r testun. Dengys hyn fod y ffurf 3ydd un. *gwneud* yn disodli *gwneuthur* ac yn cymryd ei lle fel berfenw erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg (Morris-Jones 1913: 361).

*Mynd.* Ceir y gair gogleddol *dos* am berson cyntaf gorchmynnol y ferf *mynd*, e.e. (4564).

#### *Y Berfau Rheolaidd*

*Dweud.* Amrywia ffurfiau *dywedyd* a *doydyd* y berfenw. Arferir *dywed* ar gyfer y presennol 3ydd un. ond fe'i cwtogir i *dwed* yn aml, e.e. (194).

#### *Y Berfau Diffygiol*

*Dylai.* Amrywir rhwng y sillafiad cynharach (Evans 1994: 151) *dly-*,<sup>69</sup> e.e. *ddlye* (831), *ddlysen* (5861), a'r ffurf fwy modern *dyl-* e.e. *dyly* (2704), *ddylent* (513). Y mae'n debyg fod yr amrywiad hwn yn dangos twf llafariad epenthetig cychwynnol, a fu o bosib yn dechrau cael ei hynganu rhwng y <d> a'r <l>. Y mae'n bosibl felly bod yr enghreifftiau o *dly-* yn cynrychioli ymgais gan Llywelyn i ysgrifennu mewn ffordd safonol neu efallai yn hynafol, tra bod yr enghreifftiau o *dyl-* yn dystiolaeth o'r ynganiad newydd.

#### *Y Berfau Cynorthwyol*

*Darfod.* Defnyddir y ferf hon yn rheolaidd fel berf gynorthwyol gyda'r arddodiad *i* yn ôl arfer Cymraeg Canol a Chymraeg Modern Cynnar, e.e. *ddarfod y Ddyw drwy y ras a'y nerth ef roi'r fath ysbryd* (78-9), *ar a ddarfyse i'n Prynwr ddiode* (79-80), *ddarfod y Dduw wnythyr* (640-1) (GPC: 892).

#### *Y Rhagenwau*

Er mai 'ti' yw'r ffurf ail berson unigol a arferir yn y testun, ceir y ffurf ogleddol 'chdi' ambell waith hefyd, e.e. *ach di* (401-2), *gydach di* (449).

Er mai *ef* yw'r ffurf a arferir ar gyfer y 3ydd un., ceir y ffurf lafar ogleddol *fo* ambell waith, e.e. *arnofo* (796), *goddefe fo* (5110), *efo* (293), *y fo* (593).

Arferir *hwy* ar gyfer y 3ydd llu., ond ceir ambell enghraifft o ffurfiau sydd yn dangos datblygiad y ffurf fodern *nhw*, e.e. *yn hwy* (199), *an hwythe* (565), *nwy* (205), *an hwynte* (6171).

---

<sup>69</sup> Cymharer y ffurf hon â'r Wyddeleg *dlig-im* (Evans 1994: 13).

Arferid y ffurf *i'w* yn y Gogledd, ac *iddi* yn y De (Thomas a Thomas 1989: 154) ar gyfer *i ei* yng nghyfnod Gwyn, ac ymddengys y ddwy ffurf yn y testun, weithiau ochr ag ochr â'i gilydd. Awgryma hyn inni fod yr ysgrifwr wedi gwneud ymdrech i addasu'r ffurf ogleddol ar gyfer ei gynulleidfa ddeheuol, ond nad yw ef wedi'i wneud yn rheolaidd, ond megis ar ddamwain. Gallai hefyd awgrymu bod y ddwy ffurf ar gael yn y De ar y pryd. Mewn cyferbyniad â hyn, defnyddir *iddi* yn unig yng nghyfieithiad Cymraeg y *Gesta Romanorum* a gopiwyd gan Llywelyn Siôn.

Ceir ambell ffurf sydd o bosib yn dilyn awgrymiad Gruffydd Robert<sup>70</sup> y dylid uno'r ferf â'r rhagenw personol, yn enwedig yn y ffurf orchmynnol 2ail llw., e.e. *ellwchi* (153), *meddwchi* (845), *bytwewchi* (1018) Y mae'n bosibl wrth gwrs, eu bod yn cynrychioli llithriad copïo.

#### *Y Rhagenwau Arddodiadol*

Y mae rhai o ffurfiau'r rhagenwau arddodiadol 3ydd un. ben., sef *erni*, *o heni*, *am deni*, *genthi*, *etti* a *deni* gyda'r [e] yn nodweddiadol o dafodieithoedd Sir Frycheiniog (Jones 2000: 115-6).<sup>71</sup> Ceir y ffurfiau hyn mewn Cymraeg Canol hefyd, (Evans 1994: 58-60) ac mewn testunau cyfoes o'r un ardal (Williams 2000: 14, 51).

Pan ysgrifennir ffurfiau'r 2ail un. gyda'r rhagenw personol ar wahân, tueddir i orffen y ffurf gyda *d*, e.e. *arnad ti* (2363), *ddiwrthyd ti* (2368), *rhogod ti* (2362), *o honod ti* (4375). Pan y'u hysgrifennir fel un gair, arferir *t*, e.e. *arnati* (2164), *o honoti* (2365-6). Nid yw hyn yn wir yn achos *drosot* a ysgrifennir gyda *t* pob tro, boed yn air cyfansawdd neu beidio.

Defnyddir yr arddodiad *i* ar ôl y ferf *dweud* yn rheolaidd. Ni cheir unrhyw enghraifft o *wrth*. Fe'i defnyddir ar ôl y ferf *credu* hefyd e.e. *yn credy yddo* (1539).

Amrywir ar *ôl* ac *yn ôl* yn y testun.

Collir yr *o* cychwynnol yn aml o ffurfiau rhediadol yr arddodiad 'o', e.e. 2ail un. *honod* (7183), 3ydd. un. gwr. *hano* (2404), 1af. llw. *honom* (5857), a 3ydd. llw. *honyn* (4075).

Ceir y terfyniad *-nt* yn achlysurol mewn ffurfiau 3ydd llw. yr arddodiad 'i', e.e. *yddynt* (58).

#### *Yr Arddodiad*

Defnyddir *o* yn rheolaidd gyda berf i ddynodi gweithrediad, e.e. *a myned o heni* (78-9), *ar fod o hono* (246), *wrth dwitsio o heni* (4333).

<sup>70</sup> Ceir tystiolaeth *i'w* lyfr gyrraedd Cymru erbyn 1571 (Roberts 1997: 147).

<sup>71</sup> Dywed Jones fod y cyfnewid /a/ > /ε/ yn 'ymestyn tros diriogaeth eang' yn y sir (Jones 2000: 115-6).

### *Y Treigladd Trwynol*

Treiglir yn drwynol yn ôl yr arfer mewn Cymraeg cyfoes. Pan y'i ceir yn dilyn y rhagenw meddiannol cyntaf unigol, tueddir i ysgrifennu'r rhagenw gyda <f> neu <v>, ond ceir rhai enghreifftiau heb y gytsain, e.e. *y nyddie i* (2228), *yny nal i* (2764). Awgryma hyn fod y gytsain flaenorol hon yn cael ei cholli ar lafar fel yr arferir heddiw (Jones 2000: 76). Lle dilynir *t* dreigledig gan *r*, fe'i hysgrifennir fel *ynrh*, e.e. *fyn rhigaredd* (2389).

Tueddir i golli'r llythyren anadlol derfynol yn achos *c* dreigledig, e.e. *angred* (2673),<sup>72</sup> ond erys rhai eithriadau, e.e. *anghariad* (3324), *anghyfion* (441).

### *Geiriau Tafodieithol*

#### *Y Berfau*

Defnyddia Gwyn y ferf Seisnigaidd *misio* yn ogystal â 'methu'. Dywedir y ceid hyn ar lafar yn Llŷn hyd 1988 o leiaf (Jones 1988: 18) *visio* (11). Amrywiad arall ar 'methu' yw *pallu*, a geir yn fwy mynych na *misio*.<sup>73</sup> Y mae'n debyg fod *pallu* yn cynrychioli addasiad gan Llywelyn (Thomas 1958: 164), tra bod *misio* yn cynrychioli ffurf wreiddiol Gwyn (Roberts 1973: 345).

Defnyddir y ferf *kalyn*, sef 'canlyn' ar gyfer 'dilyn'. Mae'r ferf yn digwydd yng Nghymraeg Pwllheli (Roberts 1973: 91).

Defnyddir y gair *rhegi* yn yr ystyr *melltithio*, arfer a geir ar lafar yn Arfon, bro enedigol Gwyn, o hyd, (GPC: 3048) e.e. *rhegi pobol Dduw* (5042-3).

Ceir wyth enghraifft o *gallel* fel berfenw o'u cymharu â phedair enghraifft ar bymtheg o *gallu*. Yn ôl *Dictionarium Duplex* John Davies, yr oedd y ddwy ffurf yn cael eu defnyddio yn 1623, ond *gallu* oedd y ffurf fwyaf arferol (GPC: 1377).

Defnyddir *danfon* bob tro yn hytrach nag *anfon*. Ceir y ffurf hon 'ar lafar yn gyffredinol yn y Gogledd' (GPC: 887)

---

<sup>72</sup> Gwelir yr un tueddiad i golli llythyren anadlol yng nghanol geiriau pan nad yw'r cytsain yn dreigledig, e.e. *genedleth* (2911, 3164).

<sup>73</sup> Ceir un enghraifft o 'misio', pedwar o 'methu' ac wyth enghraifft o 'pallu' yn y testun. Y ferf a ddefnyddir yn fwyaf mynych yw 'ffaelu', gyda phedair enghraifft ar ddeg.

Amrywir *dyall*, a *dyallt* ar gyfer *deall*, fel y gwnaeth William Salesbury a Gruffydd Robert yn yr un cyfnod (GPC: 908). Ceir naw enghraifft o *dyall*, a phymtheg enghraifft o *dyallt*.

Ni cheir ond un enghraifft o'r ferf ogleddol *cwyno* yn y testun, o'i chymharu ag wyth enghraifft o *achwyn*, y ferf ddeheuol (Thomas 1993: 70). Ni cheir yr un enghraifft o *conan*, sef amrywiad deheuol *cwyno*.

### *Geiriau Eraill*

Ni cheir y gair *lan* yn y testun o gwbl, eithr y *fyny* neu y *fynydd* yn gyson.<sup>74</sup> Y mae'n bosibl bod hynny yn golygu yr ystyrid y *fyny* yn ffurf fwy llenyddol yn y cyfnod hwn, ac felly nis addaswyd gan Llywelyn.

Ni ddefnyddir y gair deheuol *maes* yn y testun ond unwaith, sef mewn *marginalium* y mae'n debyg i Llywelyn ei ysgrifennu (3314). Fel arall ceir *allan* bob tro, ac eto y tebygrwydd yw i *allan* gael ei ddefnyddio oherwydd ei fod yn cynrychioli ffurf lenyddol.<sup>75</sup>

Amrywir *ers*, *es* ac *eres* drwy'r testun. *Eres* yw'r ffurf fwyaf cyffredin, a dywedir mai ffurf ogleddol ydyw (Awbery et al 1985: 17).

Ysgrifennir y gair prin fel *bring* (41), a ddynoda ynganiad sydd yn nodweddiadol o Gymraeg Brycheiniog (Thomas 1992: 64) a Morgannwg (Thomas a Thomas 1989: 5). Ceir yr un tueddiad gan Llywelyn Siôn tua'r un adeg (Williams 2000: 16).<sup>76</sup>

Er mai *ef* a arferir ar gyfer y person cyntaf unigol gwrywaidd, ceir ambell enghraifft o *fo* hefyd, e.e. *fo* (593), *efo* (292).

Ceir ambell enghraifft o *pwy* lle y disgwyliid *pa*, e.e. *pwy vn* (3441), sydd yn nodweddiadol o dafodieithoedd y De (GPC: 2947).

Defnyddir *ychwaneg* i ddynodi *rhagor*, e.e. *chwaneg o boyne uffern* (1229), sydd yn arferiad gogleddol (Thomas 1993: 68).

### *Hynafolion*

Defnyddir *e* am y rhagenw gofynnol *a*, *ai*, e.e. *e ddywtiwn* (2447), *e wnaeth* (4343).

Ceir y ffurfiau Cymraeg Canol (Evans 1994: 203) *mal* (1376), *val* (1322) ar gyfer *fel*. Roedd y ffurfiau hyn yn parhau'n gyffredin yng nghyfnod Gwyn.<sup>77</sup>

<sup>74</sup> Ceir 'fyny' heddiw i'r gogledd o Afon Ystwyth (Thomas 1973: 531).

<sup>75</sup> Defnyddir *maes* gan Llywelyn Siôn yn y *Gesta Romanorum*, testun a nodweddir gan 'arddull idiomatig' yn ôl y golygydd, felly y mae'n bosibl y cawsai'r ffurf hon ei defnyddio mewn gweithiau y bwriadwyd iddynt fod yn llai llenyddol (Williams 2000: 8). Yn yr un modd, dadleuodd Jenny Rowland bod y *maes* yn 'dafodieithol ac is-safonol' yn y cyfnodau cynnar (Rowland 1990: 119).

<sup>76</sup> Ysgrifennai *tario* fel *taring* hefyd, enghraifft o ferf yn gorffen gydag <ing> (Williams 2000: 4, 10).

Amrywir *os* ac *od*. *Od* yw'r fwyaf mynych, yn arbennig o flaen llafariad.<sup>78</sup> Defnyddir *os* o flaen berf yn y modd mynegol, e.e. *os merkiwch* (422), *os gofyniff* (539) (GPC: 2611). Fe'i defnyddir yn yr amherffaith yn lle *pe* hefyd, e.e. *os enille* (1700), *os dalie* (2627-8).

Amrywir *onyd* ac *ond*; defnyddir *ond* yn llawer mwy aml.

Defnyddir y ffurfiau cyferbyniol *no* ac *na* ill dau.

Arferir y *llyn* neu yn *llyn* ar gyfer *fel hyn* yn ôl arfer Cymraeg Canol. Ceir enghreifftiau o hyn mor ddiweddar â'r ddeunawfed ganrif gan William Williams Pantycelyn (GPC: 2273).

### *Bathiadau Gwyn*

Bathodd Gwyn nifer o dermau newydd am Brotestaniaid yn y Gymraeg. Cyfeirir atynt fel *Gwyr Newydd* (160 o weithiau), *Gwyr Newydd o Loegr* (dwywaith), *Gwyr Newydd o Gymru* (dwywaith) ac *opiniadwyr* (274 o weithiau).<sup>79</sup> Y mae *Gwyr Newydd* yn ddynewarediad Cymraeg am y Lladin *novationes*, term a ddefnyddid gan y Catholigion i gyfleu eu barn mai crefydd newydd oedd Protestaniaeth.<sup>80</sup> Yn yr un modd, y mae *opiniadwyr* yn ddynewarediad o'r Ffrangeg *opinionistes*, sef pobl a gredai rywbeth a oedd yn erbyn dysgeidiaeth swyddogol yr Eglwys.<sup>81</sup> Cyfeirir at y Protestaniaid hefyd fel *hereticiaid* a *darnwyr*, sef cyfieithiad o'r Saesneg *schismatics*. Ymddengys mai Gwyn oedd y person cyntaf i ddefnyddio'r gair *darniwr* hefyd (GPC: 896). Ceir defnydd helaeth o'r geiriau hyn yn *Gwssanaeth y Gwyr Newydd a'r Drych Kristnogawl* hefyd.

### *Geiriau Benthyc*

Esgusododd Gwyn ei ddefnydd helaeth o eiriau Saesneg yn ei ragymadrodd i'r *Drych Kristnogawl*,

...fy nghyngyd a'm meddwl yn bennaf yn y llyfr hynn yw rhoi cyngor sprydol i'r annysgedig. Ag er mwyn cael gan y cyphredin ddeall y llyfr er daioni iddynt, mi a ddodais fy meddwl i lawr a cheir eu bronneu hwy yn yr iaith gyphredinaf a sathrediccaf ymhlith y Cymry yr owron. Canys pei byswn i yn dethol allan hen eirieu Cymraeg nyd ydynt arferedig, ny byssei vn ym mysc cant yn

---

<sup>77</sup> Fe'u ceir gan Siôn Dafydd Rhys yn ei *Cambrobrytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones* (1592), er enghraifft (GPC: 2325).

<sup>78</sup> Dywed Simon Evans y dechreuwyd defnyddio 'os' o flaen llafariad o'r cyfnod Canol ymlaen (Evans 1994: 241–2), felly y mae'n debyg bod hyn yn enghraifft o ymgais gan Llywelyn i ddefnyddio ffurfiau hynafol.

<sup>79</sup> Er bod y gair 'opiniwn' wedi cael ei fathu cyn i Gwyn ddechrau ysgrifennu, (fe'i defnyddiwyd yn *Nhestament Newydd* William Salesbury er enghraifft), ymddengys mai Gwyn oedd y person cyntaf i ddefnyddio'r term 'opiniadwr' am rywun a oedd yn arddel cam-grefydd (GPC: 2649).

<sup>80</sup> Ceir y defnydd cyntaf o'r gair yn Saesneg gan R. Hooker yn 1597 yn ei *Of Lawes Eccl. Politie*.

<sup>81</sup> Ceir y defnydd cyntaf o'r gair yn Saesneg gan John Stevens (fl. 1611-1617).

dyall hanner a ddywedaswn, cyd byssei yn Gymraeg dda, am fod yr iaith gyphredin wedy ei chymyscu a llawer o eirieu anghyfieith, sathredig ymhlith y bobl, a bod yr hen eirieu a'r wir Gymraeg wedy myned ar gyfyrgoll a'i habergofi. Amherthynas wrth hynn a fuassei ymarfer o araith heb nemor yn ei ddeallt (Gwyn 1996: 8).

Fel rhan o'i draethawd doethuriaeth ar ryddiaith y reciwsantiaid Cymreig, gwnaeth Geraint Bowen gryn dipyn o waith yn dadansoddi'r math o iaith a ddefnyddiwyd gan Gwyn yn *Na all fod un ffydd onyd yr Hen Ffydd*, ynghyd â'r arddull. Rhydd bwyslais ar ddylanwad y Saesneg ar ieithwedd Gwyn, ac ar y gwallau a ddeillia o hynny, gan restru nifer ohonynt (Bowen 1978: 200–2). Y mae hefyd yn cynnwys rhestr hir o enghreifftiau, rhai yn fenthyciadau Saesneg, ac eraill yn eiriau brodorol yn dwyn sillafiadau a ymddengys yn dafodieithol, gan ddweud y byddai'r ffurfiau hynny'n gyfarwydd i deulu Gwyn (Bowen 1978: 202). Nid ydyw, ysywaeth, yn cynnig unrhyw dystiolaeth bendant fod y rhain yn cynrychioli ffurfiau tafodieithol Llŷn.

Trafoda arfer Gwyn o baru geiriau am bwrpasau rhethregol, gan nodi mai oddi wrth Thomas Stapleton y dysgodd yr arfer hwn. Unwaith eto, rhoddir rhestr o enghreifftiau o eiriau wedi'u paru (Bowen 1978: 204–5). Â ymlaen i drafod arddull Gwyn trwy sôn am y ffordd y cyfarcha'r darlennydd yn uniongyrchol yn aml (Bowen 1978: 206), gan ysgrifennu pethau fel *moyswch weled* (754), *moyswch ddechre y peth* (2084), *chwi a glowsoch* (289), *chwi a wddoch* (476), a *gwrandewch beth y may'r Apostol yny dduwedyd* (3086), sef dyfais bregethwrol sy'n dangos hyfforddiant galwedigaethol Gwyn yn glir. Sonia hefyd am fathiadau Gwyn (Bowen 1978: 205).

Nid yw Bowen yn cynnwys unrhyw drafodaeth ar yr orgraff a ddefnyddir yn y testun, ac eithrio nodyn bach yn priodoli'r addasiad o'r terfyniadau *-odd*, *-awdd* i *-oedd* i William Dafydd Llywelyn (Bowen 1978: 207). Nid oes trafodaeth ar y ramadeg ychwaith, ac eithrio'r cystrawennau sy'n dangos dylanwad y Saesneg, y cyfeiriwyd atynt uchod. Yn sicr, ni cheir ganddo unrhyw ymgais systematig i ddadansoddi gramadeg y testun.

Cyfeiriwyd uchod at natur lafar Cymraeg Robert Gwyn, ac yn wir, y mae ei lyfrau'n frith o eiriau ac ymadroddion Saesneg, ac felly rhydd y testun hwn syniad da inni o'r graddau yr oedd geiriau a chystrawennau Saesneg wedi ymgartrefu yng Nghymraeg yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn wir, oherwydd y sefyllfa ddwyieithog a fodolai yn ne-ddwyrain Gwent a Brycheiniog yn y cyfnod,<sup>82</sup> y mae'n debyg y byddai defnydd helaeth o'r Saesneg yn fuddiol i ddarllenwyr a gwrandawyr y llyfrau.

---

<sup>82</sup> 'The existence of a large bilingual population on the eastern frontier of Mid and South Wales in the seventeenth century is scarcely open to doubt' (Darlington 1900: 13). Dywedodd Glanmor Williams yn fwy



Enwau a fenthycir yn fwyaf aml gan Gwyn, er iddo fabwysiadu llawer o ferfau hefyd. Rhoddir isod restr Bowen o'r geiriau benthyg a geir yn y testun, wedi ei rhannu yn ôl y math o air, ynghyd â rhai ychwanegiadau na chyfeiriodd Bowen atynt.

Yn aml, y mae'r geiriau a fenthycir gan Gwyn yn dermau am rai o faterion y grefydd Catholig, megis *absoliwsiwn* (6162), *ffrir* (8699), *heretix* (2740), *mysteried* (5871-2), *pix* (6605),<sup>83</sup> *pydere* (8702), *processiwn* (6656). Yn achos *nwnnied* (7317) a *packas* (6489), ymddengys o'r diffyg cyfeiriadau atynt yng Ngeiriadur y Brifysgol, mai Gwyn oedd y cyntaf i dderfnyddio'r termau hyn. Gellir ychwanegu *kyffesy* (248), *dilyfrans* (2262), *siaplennied* (6723) a *stola* (8694) at restr Bowen yma, a hefyd *kimiwynyn* (2773), a geir yn gynharach yma nag yr un enghraifft arall yng Ngeiriadur y Brifysgol (GPC: 549). Defnyddia'r term Protestannaidd *papystied* (3203)<sup>84</sup> hefyd. Defnyddia dermau crefyddol eraill megis *babling ffydd* (5212),<sup>85</sup> *dyspywtasiwn* (2844), *gwrsib(edd)* (2443), *safio* (1916), a *suffragan* (6783) hefyd.<sup>86</sup> Ceir hefyd y geiriau *kor* (6751), *dekyn* (5097), *defosiwn* (8003), ag *epystl* (6760).

Yn ogystal â'r termau crefyddol hyn, ceir llawer o enghreifftiau o eiriau mwy cyffredin, yn enwedig berfau, megis *alwio* (7732),<sup>87</sup> *bostio* (3987), *bribio* (301), *considrio* (684) *cordio* (1110), *cwittio* (1294), *kwmpario* (3480), *chwarthorio* (8677), *defeisio* (374), *dilyfro* (1071), *downtio* (3416), *dragio*, (7094), *entrio* (315), *ffaylio* (1582), *hapio* (7921), *helpy* (305), *medlio* (4529), *merkio* (12), *misio* (11), *mockio* (6498), *mwmlian* (6395), *ockypio* (6466), *passio* (172), *possio* (1234), *pryfiio* (56), *sclandrio* (7847), *scwrio* (1129), *sgwarrio* (3842), *sialeinsio* (1936), *seinio* (2852), *srinkio* (6569),<sup>88</sup> *stentio* (8700), *stopio* (137), *tentio* (746), *tryfaylio* (3449), *twitsio* (5530), *wastio* (2358), *waytio* (6715) ac *yspario* (1951).<sup>89</sup> Ceir hefyd *hondlio* (805), *rhywlio* (8693), a *submittio* (8441), sydd oll yn ymddangos yn gynharach yma nag y nodir yng Ngeiriadur y Brifysgol.

Gellir ychwanegu *blottio* (6925), *cario* (1652), *kynffordi* (110), *distrywio* (120), *disyfo* (4210), *dysbywto* (5459), *ffwrnisio* (6076), *ffysto* (492), *gwranty* (4296), *lyfirio* (653), *maytsio* (6116),<sup>90</sup> *mesuro* (3555), *nottio* (2638), *ordinio* (416), *pardynu* (1), *peintio* (2654), *pickio*

---

diweddar mai 'dim ond yn y trefi marchnad ac mewn ambell ardal megis De Penfro, Bro Morgannwg ac ar hyd rhai o fröydd y Gororau y ceid rhai a oedd â chrap gweddol ar yr iaith Saesneg' (Williams 1986: 56).

<sup>83</sup> Noda Geiriadur y Brifysgol mai Gwyn oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term hwn yn Gymraeg (GPC: 2797).

<sup>84</sup> Noda Geiriadur y Brifysgol mai Gwyn oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term hwn yn Gymraeg (GPC: 2682).

<sup>85</sup> Y mae'n debyg mai Gwyn oedd y cyntaf, ac o bosibl yr unig berson i fenthycir y term hwn i'r Gymraeg, oherwydd nad ymddengys mohoni yng Ngeiriadur y Brifysgol.

<sup>86</sup> Y mae'r geiriau hyn oll yn dod o restr Bowen (Bowen 1978: 202–4).

<sup>87</sup> Ysgrifennir y ferf hon heb yr *a* gychwynnol fel arfer, e.e. (7845).

<sup>88</sup> Noda Geiriadur y Brifysgol mai Gwyn oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term hwn yn Gymraeg (GPC: 3256).

<sup>89</sup> Y mae'r geiriau hyn oll yn dod o restr Bowen (Bowen 1978: 202–4).

<sup>90</sup> Noda Geiriadur y Brifysgol mai Gwyn oedd y cyntaf i ddefnyddio'r term hwn yn Gymraeg (GPC: 2376).

(6441), *plessio* (237), *powdrio* (8959), *prepario* (6673),<sup>91</sup> *presentio* (4300), *proffidio* (234), *pryntio* (7025), *pywntio* (8014), *rysymy* (1963), *samnio* (6588), *siomi* (963), *sirio* (452), *siwrnio* (6420), *spilio* (6617), *spio* (8893), *stwoffio* (8576), *swckrio* (7650), *swppery* (5540), *symbylio* (670), *tackly* (8206), *tastio* (4231), *tendio* (6723), *tittio* (5005), *treio* (1642), *watsio* (189), *ymendio* (240), ac *ystyidio* (1854) at y rhestr. Ceir hefyd *ado* (8911), *sbrinkian* (8130), *siwto* (6576) ac *ymgwestiwno* (5856), a ymddengys oll am y tro cyntaf, y mae'n debyg, yng ngweithiau Gwyn.

Ceir llawer o enwau benthyg hefyd, megis *aliwns* (9041), *brest* (178), *criples* (6564), *kondisiwn* (189), *kramp* (7820), *dyffrans* (6106), *ferdid* (2108), *gormersi* (6273), *hereci* (26), *matter* (38), *proffit* (5825), *offis* (6012), *ordenance* (116), *ordor* (369), *partris* (3970), *pesigwr* (6250),<sup>92</sup> *pintied* (8609), *promis* (4364) *riolty* (6302), *sampal* (231), *siars* (631), *seidg* (1314), *sein* (7204), *simmwr* (1339), *sir* (*cheer*) (678), *sir* (*shire*) (4068), *sort* (7328), *stattys* (5228), *sym* (3466), *swbstans* (5771), *tentes* (8193), *trafel* (455), *trestel* (120), *tryst* (6553)<sup>93</sup> a *sgwlmaystr* (6519). Ceir hefyd *dyspleser* (2389), *ffylbri* (2797) a *siarettes* (7942), sydd oll yn ymddangos yn gynharach yma nag yr un enghraifft yng Ngeiriadur y Brifysgol.<sup>94</sup> Ceir y gair *cawad* (2565)<sup>95</sup> ar gyfer 'llwfrgi', defnydd nas cofnodir yng Ngeiriadur y Brifysgol.

Gellir ychwanegu *ayr* (4538), *bastardied* (3007), *blottyn* (316), *brwnstan* (585), *bwth* (7945), *bysnes* (6721), *canker* (8936), *capten* (7916), *clai* (598), *cog* (7762), *cwarter* (6565), *coler* (752), *conffeswyr* (1507), *conkwerwr* (7636), *coppi* (2033), *cwestione* (21), *cwmpayni* (2705), *cwrs* (752), *cwrtisi* (6087), *kertwen* (8129), *knaf* (2064), *kordyn* (4472), *krefft* (1350), *kriwed* (6013), *krypyl* (6431), *kweryl* (7380), *kwlwm* (3188), *kwppan* (5543), *kwrt* (4482), *kwrtwyr* (6043), *kyr* (7999), *dageri* (6635), *diwti* (132), *doctor* (13), *dowt* (3442), *droppyn* (2302), *dwsing* (6197), *eistyssied* (6084), *ffafyr* (301), *ffalsder* (704), *ffe* (8981), *ffin* (891), *ffioled* (1695), *Ffleming* (6542), *ffryndes* (852), *galwyn* (8610), *Gentilied* (1509),<sup>96</sup> *grwndwal* (7368), *gwarant* (4813), *gwfert* (1900), *hal* (8189), *hasard* (7805), *hem* (6257), *hwsmon* (3814), *idolatri* (6214), *japtyr* (9063), *leg* (6699), *lepri* (7917),<sup>97</sup> *malais* (147), *mantell* (449), *mark* (15), *maitsie* (6022), *meddic* (475), *melfed* (1372), *mettel* (6118), *mockieth* (7758),

<sup>91</sup> Morys Clynnog oedd y person cyntaf i fenthyg y gair hwn (Clynnog 1568: 53).

<sup>92</sup> Y mae'n debyg mai Gwyn oedd y cyntaf i ddefnyddio'r ffurf hon o'r gair gyda <p> flaenorol (GPC: 1290).

<sup>93</sup> Defnyddir y gair hwn yn yr ymadrodd *ar dryst*, sef cyfieithiad llythrennol o'r Saesneg *on trust*, mewn darn sydd ei hun yn gyfieithiad o lyfr Richard Bristow *A Briefe Treatise*, (Antwerp), 1574.

<sup>94</sup> Y mae'r geiriau hyn oll yn dod o restr Bowen (Bowen 1978: 202–4).

<sup>95</sup> Ceir y sillafiad hwn fel ffurf o'r gair 'cawod' hefyd (8097).

<sup>96</sup> Noda Geiriadur y Brifysgol mai yn y testun hwn a ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg (GPC: 2046).

<sup>97</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 2061).

*monstr* (6463), *nasiwn* (1425), *pais* (8137), *palsi* (8051),<sup>98</sup> *pappyr* (6821), *parabl* (2245), *pardwn* (7713), *pared* (930), *parlament* (4533), *parti* (942), *peintiwr* (7020), *pint pot* (8609), *pis* (6603),<sup>99</sup> *piwter* (612), *plesser* (759) *pot* (697), *pottes* (338), *prank* (7847), *pres* (8269), *prins* (4610), *pris* (52), *prokatwyr* (4299),<sup>100</sup> *pwer* (2402), *pwrpas* (1382), *pwrws* (896), *pwynt* (2643), *ramswm* (848), *rheswm* (671), *rhof* (2636), *rhywmedi* (381), *scot* (4094), *schismes* (26-7), *sel* (315), *siacked* (317), *siambar* (8042), *siesyne* (6084), *sifft* (5950),<sup>101</sup> *sinagog* (6621), *siwrne* (4118), *spas* (1975), *spiliwr* (9002), *spottie* (7918),<sup>102</sup> *stol* (6348), *stymock* (744), *swckwr* (7280), *tabernacle* (6973), *tast* (5537), *templ* (8355), *tentassiwn* (709), *traen* (7944), *traytyr* (6093), *tresbas* (860), *tryfayliwr* (4117), *ymbasseters* (7685),<sup>103</sup> *ysgymyn* (7239), *ysgyrsiad* (8412), *ystabl* (1354), ac *ystat* (6040) at y rhestr hon. Ceir hefyd *brygalwin* (8939), *caren* (8146), *circumsission* (1208), *cockyn* (3293), *kynffordd* (6263), *kynfforddwr* (4685), *dysgressiwn* (2256), *incest* (6024), *legion* (8500), *lifing* (2177), a *pwyntment* (6707), y mae'n debyg mai yng ngweithiau Gwyn y ceir yr enghreifftiau cyntaf ohonynt.

Benthycir ambell ansoddair, megis *abal*<sup>104</sup> (132), *ffest* (8166), *lysti* (4192), *proppor* (8975), a *weid*<sup>105</sup> (8579).<sup>106</sup> Gellir ychwanegu *blottiedic* (44),<sup>107</sup> *clos* (8428), *di-ffawt* (4842), *dottiedig* (4560), *downtys* (4495), *faleisys* (152), *ffein* (6043), *ffol* (326), *ffri* (5316), *happys* (7203), *natyriol* (330), *onest* (4310), *rhitach* (34), *pla* (266), *possibyl* (1199), *pryntedic* (2032), *serten* (509), *siarpach* (2253), *siengel* (5978),<sup>108</sup> *sobor* (8532), *sywr* (169), *ysbyssol* (9) ac *ysgarled* (8190) hefyd.

Gwelir o'r enghreifftiau uchod nad oedd Gwyn wedi gwneud llawer o ymgais i fathu geiriau newydd, ar wahân i'r enwau a roddai ar y Protestaniaid, ac nad oedd wedi dilyn cyfarwyddiadau Gruffydd Robert yn ei Ramadeg ynglŷn â chreu geiriau newydd (Bowen 1978: 202). Y cwbl a wnaeth oedd addasu sillafiad geiriau Saesneg fel y byddent yn haws i'w hynganu. Ni wnaeth hyd yn oed hynny gydag ambell enghraifft, megis *ordenance* (116) a *circumsission* (1208), lle gadawodd y sillafiad bron yn ddi-gyfnewid. Defnyddiai Gwyn gymaint o Saesneg yn ei destunau oherwydd iddo ddilyn y trywydd a osodwyd gan William

<sup>98</sup> Noda Geiriadur y Brifysgol mai yn y testun hwn a ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg (GPC: 2675).

<sup>99</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 2809).

<sup>100</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 2900).

<sup>101</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 3275).

<sup>102</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 3194).

<sup>103</sup> Noda fersiwn electronig GPC mai Gwyn oedd y person cyntaf i ddefnyddio'r amrywiad hwn o'r gair.

<sup>104</sup> Ceir *anabl* hefyd, e.e. (8).

<sup>105</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 3731).

<sup>106</sup> Y mae'r geiriau hyn oll yn dod o restr Bowen (Bowen 1978: 202-4).

<sup>107</sup> Noda fersiwn electronig GPC mai Gwyn oedd y person cyntaf i ddefnyddio'r amrywiad hwn o'r gair.

<sup>108</sup> Ymddengys y gair hwn am y tro cyntaf yn Gymraeg yn y testun hwn (GPC: 3206).

Allen, ac ysgrifwyr eraill Ysgol Douai, a cheisio defnyddio'r math o iaith a fyddai'n fwyaf effeithiol iddo wrth argyhoeddi ei gynulleidfa.

### *Egwyddorion Golygyddol*

Pwrpas y golygiad hwn yw cynhyrchu testun a fydd yn ddefnyddiol i gynulleidfa academiaidd fodern, Gymraeg ei hiaith gan gynnwys myfyrwyr, y gellir o bosibl ei ddarllen ochr yn ochr â'r llawysgrif er mwyn ei dadansoddi hithau'n well. Cyfaddefai Gwyn ei fod yn ysgrifennu â llaw 'blottedic' a 'throws' (135), ac er ein bod yn ddigon ffodus bod copi William Dafydd Llywelyn wedi'i ysgrifennu mewn llaw glir go ddarllenadwy, y mae yn y testun rai geiriau a chystrawennau a ymddengys yn ddigon astrus i'n llygaid ni heddiw.

Y nod wrth olygu'r testun oedd cadw mor agos â phosibl at nodweddion Cymraeg Gwyn a Llywelyn, gan beidio â tharfu ar y sillafu nac ar raniad geiriau. Gobeithir y bydd hynny'n galluogi'r darllenydd i ymglyfarwyddo â'r math o iaith a ddefnyddid i gyfansoddi gweithiau rhyddiaith yng Nghymru'r unfed ganrif ar bymtheg. Bydd testun o'r math hwn yn ddefnyddiol i ieithyddion hanesyddol a gramadegwyr, a gobeithir y bydd ei gyflwyno mewn ffordd mor ddealladwy â phosibl yn ei wneud yn ddefnyddiol i haneswyr y cyfnod hefyd, a allai elwa ar yr olwg y mae'n ei roi inni ar grefydd, gwleidyddiaeth, a chymdeithas cyfnod Gwyn. Cyhoeddwyd dau destun o waith Robert Gwyn eisoes gan Bowen, sef *Gwssanaeth y Gwŷr Newydd* a'r *Drych Kristnogawl*, ynghyd â rhagymadroddion yn trafod eu cynnwys a'u cefndir crefyddol a llenyddol, a gobeithir y bydd y gyfrol hon yn ychwanegu at gorpws Gwyn yn yr un modd, gan gynyddu ein dealltwriaeth o'i fywyd a'i waith trwy dynnu ar y dystiolaeth a geir yn y testun, a'r hyn sydd wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi'r ddau destun blaenorol, sef rhai o fanylion bywyd Gwyn a'i gysylltiadau llenyddol Seisnig.

Ynghyd â'r testun ei hun felly, cynhwysir ôl-nodiadau manwl ar wahanol agweddau ar y golygiad, gan gynnwys sylwadau ar faterion sy'n codi o'r testun, megis sylwadau Gwyn ar wleidyddiaeth grefyddol ei oes, neu gyfeiriadau at ryw fan pererindod arbennig. Yn ogystal, trafodir ffynonellau Gwyn, a'r ffyrdd y mae ei waith ef yn adlewyrchu'r testunau gwreiddiol neu'n wahanol iddynt. Cynhwysir gwybodaeth gefndirol am y pethau a'r bobl y mae Gwyn yn sôn amdanynt, neu yn eu trafod, er mwyn i'r darllenydd gael dealltwriaeth ehangach o themâu a dadleuon yr awdur. Oherwydd i Llywelyn addasu testun gwreiddiol Gwyn ar gyfer cynulleidfa ym Mrycheiniog a Gwent (gweler yr adran ar iaith y testun), y mae'r gwaith bellach yn gyfuniad o dafodiaith Llŷn y llawysgrif wreiddiol, a thafodiaith y

De-ddwyrain. Y mae hyn yn gadael y testun megis *palimpsest* o eiriau a chystrawennau gogleddol o dan y geiriau a chystrawennau deheuol newydd. Golyga hyn ei fod yn destun diddorol iawn o ran iaith, ac felly y mae llawer o'r ôl-nodiadau yn canolbwyntio ar iaith y llawysgrif, ac effaith addasiadau Llywelyn. Ceisiwyd creu darlun o iaith nodweddiadol Gwyn o'r enghreifftiau a erys yn y llawysgrif, a lle na thrafodir yr wybodaeth honno yn y bennod ar iaith y testun, fe'i ceir yn yr ôl-nodiadau.

Rhestrir yr holl egwyddorion golygyddol isod.

### *Dull y golygu*

1. Dilynwyd confensiynau atalnodi heddiw.
2. Ychwanegwyd collnodau yn dawel er mwyn hwyluso darlleniad y testun.
3. Ychwanegwyd atalnodau llawn yn dawel at ddiwedd paragraff pan fo angen.
4. Tynnwyd allan y cyplysnodau dwbl a ddefnyddir pan rennir gair ar ddiwedd llinell. Ychwanegwyd cyplysnodau sengl yn yr achosion a ganlyn: 1. pan rennir gair ar ddiwedd llinell pan geir llaw yng nghanol y ddwy ran (1202). 2. wrth ychwanegu ° at air a rennir gan ddiwedd llinell (2213-14).
5. Pan gwmpesir enwau gyda dotiau gan y copiwr er mwyn dynodi mai enwau oeddent, e.e. *Eclesiasticus*. dilëwyd y dotiau.
6. Dynododd y copiwr rai ychwanegiadau â charat. Ni ddefnyddiwyd mohonynt yn y golygiad, eithr nodi eu lle yn y llsg. gan *add. supra.* yn y troednodiadau. Lle ychwanegir pethau heb garat, cyflëwyd hyn gan ddefnyddio *supra.*
7. Cwmpesir rhai geiriau mewn blaen slaesiau neu gromfachau er mwyn eu hamlygu, ac fe'i cadwyd felly.
8. Defnyddiwyd < > i ddynodi bod gair neu eiriau'n aneglur yn y llsg.
9. Defnyddiwyd llythrennau italaidd i ddynodi'r rhannau o'r testun sydd wedi eu hamgáu mewn blwch yn y llawysgrif. Pan geir llythrennau italaidd o fewn cromfachau, golyga hyn mai cromfachau ar gyfer pwyslais ydynt, yn hytrach na chromfachau a ddefnyddir yn y modd arferol heddiw.
10. Dynodir dechrau llinell lawysgrifol a gysylltir â *marginalium* gan °.
11. Newidwyd .i. > 1 yn dawel yn achos y rhifau Arabaidd.
12. Pan geir llaw ar ymyl y dudalen *recto* yn pwyntio i'r chwith, fe'i symudwyd i ddechrau'r llinell, a'i newid i bwyntio i'r dde.

13. Defnyddia Gwyn .X. i ddangos ei fod yn dyfynnu awdur arall, ac fe gadwyd at yr arfer hwn. Ychwanegwyd [.X.] ar ddiwedd dyfyniad pan nas ceir mo hyn gan Gwyn.
14. Ychwanegwyd llythrennau bras i'r geiriau dilynol ym mhob achos: *Catholig, Kymry, Arglwydd, Duw, Scythyr Lan, Iesu, Crist, Eglwys* (pan fo'n briodol gwahaniaethu rhwng *Eglwys* ac *eglwys*), *Prynwr, Ternas Nef, Gwyr Newydd, Dydd y Farn, Cythrel, Diawl, Gorchmynion, Credo, Ysbryd Glan, Croes* (wrth gyfeirio at Groes Grist), *Iddewon, Gentilied, Testament, Safiwr*.
15. Ni ddiwygiwyd treigladau yn y testun, hyd yn oed pan ymddangosant yn wallus.
16. Nodir geiriau neu lythrennau a ychwanegir uwchben y llinell yn yr *apparatus criticus* o dan y testun. Nodir geiriau a ddilëwyd neu y sydd yn aneglur yn yr un modd.
17. Pan ddynodir *n* neu *m* gan strôc grog, fe'i hychwanegwyd yn dawel.
18. Lle ceir *.n.* am *yn*, fe'i gadwyd felly.
19. Amrywa defnydd y copiwr o *u ac v* llafariadol, ond tueddir i ddefnyddio *v* cyn *n*. Wrth olygu felly, defnyddiwyd *v* i ddynodi cytsain, ac *u* i ddynodi llafariad, er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddwy sain, a hefyd er mwyn bod yn rheolaidd. Defnyddir *ū* yn y llawysgrif i ddynodi *u*, ac fe newidiwyd hyn i *u* yn dawel.
20. Ceir ambell enghraifft o *j* am *i*. Fe'u newidwyd i *i* yn dawel, ac eithrio yn achos rhai enwau y tueddir i'w sillafu gyda *j* heddiw, megis *Jupiter* (8348) a *Jordan* (8016).
21. Yn achos ôl-nodyn ar ddarn hir o'r testun, nid oedd pob tro'n bosibl cysoni'r rhif o flaen y nodyn â'r llinellau oll y mae'r nodyn yn gysylltiedig â hwy. Rhoddir rhifau'r llinellau yng nghorff y nodyn pan fo hyn wedi digwydd.